# ECO'R WYDDFA

RHIF 25 EBRILL 1978 Pris: 10c


# CROESFFORDD BERYGLUS

**CROESFFORDD Raca, hanner ffordd rhwng Deiniolen a Phenisarwaun yw un o'r mannau peryclaf ar ffyrdd yr ardal. Dyna ddyfarniad nifer o fodurwyr sy'n gorfod defnyddio'r gyffordd yn feunyddiol. Dyna hefyd yw barn llawer o lygaid-dystion i'r nifer damweiniau moduro o bob math sydd wedi digwydd yno yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.**

I yrrwr sy'n teithio'n gyflym o gyfeiriad Brynrefail am Fangor mae'r gyffordd, er ei bod wedi'i harwyddo'n glir, "yn ymddangos" fel petai, yn sydyn ar ôl iddo gyrraedd pen yr allt. Nid oes modd iddo weld mewn digon o bryd, gar arall yn teithio tuag at y gyffordd o gyfeiriad Penisarwaun, oherwydd natur isel y ffordd honno, hyd nes y bo hwnnw'n barod i ddod i'r briffordd.






*Dyma ganlyniad y ddamwain ddiweddaraf. Mae'n syndod fod gyrrwr y car yn fyw*

Y broblem fwyaf, ac achos nifer o ddamweiniau, yw'r car sydd newydd fynd i'r briffordd o gyfeiriad Penisarwaun ac sydd eisiau troi eto o fewn ychydig lathenni, i'r dde i gyfeiriad Deiniolen. Prin fod digon o amser i yrrwr y car hwnnw roi arwydd o'i fwriad yn ddigon buan. Y canlyniad yw fod gyrrwr y car tu cefn yn gorfod brecio'n gyflym, ac, fel y digwyddodd mewn achos diweddar iawn, yn colli rheolaeth ar y car ac yn llithro i lwybr lori yn dod yn y cyfeiriad arall.

Tueddiad arall yw i yrrwr y car tu cefn anghofio am ail ran y gyffordd wrth weld lôn glir o'i flaen a mynd heibio'r car araf a hwnnw wedyn yn arwyddo ar y munud olaf a throi i'r dde yn rhy hwyr i arbed damwain.

Mae'r un peth yn wir hefyd am geir sy'n teithio'n gyflym i lawr y briffordd i gyfeiriad Brynrefail a'r rhai sy'n troi iddi o lôn Deiniolen ac wedyn i'r dde i ffordd Penisarwaun. Bu sawl damwain wrth i geir fethu brecio'n ddigon cyflym a tharo ceir llonydd yn disgwyl am eu cyfle i droi i'r dde.

Bu naw damwain swyddogol ar y gyffordd rhwng Ebrill 1976 a Thachwedd 1977. Anafwyd 4 o bobl. Mae nifer o rai eraill wedi digwydd pryd nad oedd rhaid galw'r heddlu.

Roedd Aelodau Priffyrdd a Thrafnidiaeth Gwynedd ac Adran Syrfewr y Sir yn condemnio'r gyrru cyflym sy'n digwydd ar y gyffordd. Fel canlyniad i ymhol-

*Parhad ar dud. 12)*

# TREFN NEWYDD

PENDERFYNWYD yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Yr Eco fis diwethaf i newid ychydig ar oruchwyliaeth y papur. Isod ceir rhestr o enwau'r rhai a etholwyd i'r gwahanol swyddi ynghyd â'u cyfeiriadau a'u rhifau ffôn.

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon 3719)

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun.

**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis (Llanberis 220)

**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 3577)

**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen.

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu a nhw yn eich ardaloedd

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth, (Portdinorwic 726)
BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
BRYNREFAIL: Mrs. Lowri Prys Williams, Godre'r Coed (Llanberis 580)
CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)
CWM-Y-GLO: Mrs. Gwyneth Chick, 1 Tan y Bryn, Cwm-y-glo.
DEINIOLEN: Gwyndaf Roberts, 8 Ffordd y Gogledd (Llanberis 427)
DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)
LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)
NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)
PENISARWAUN: Leslie Larsen, Llygad yr Haul, (Llanberis 533)
TAN Y COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)
WAUNFAWR: W. Vaughan Jones, Hafod y Coed (Waunfawr 387)

*(Gweler llythyr Arwel "Dwy Flynedd i'w Cofio", tud. 12).*

# CASGLWYR DIWYD LLANBERIS



*Dyma lun o aelodau'r Urdd, Ysgol Dolbadarn, Llanberis a fu wrthi'n casglu arian i Gronfa £1 y pen yr Urdd. Casglwyd £219.25 ganddynt. Jane Parry, Safon 1 a gasglodd y swm unigol uchaf o £6.40. Yna Mark Parry, Safon 2 a Debra Owen, Safon 1 a gasglodd £6.20 yr un. Casglodd Nia a Sian Griffith, Y Babanod Uchaf £8 rhyngddynt a Morfen a Heulwen Hughes, Safon 3 ac 1, £7 rhyngddynt.*

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 25 EBRILL 1978**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*


CYFRANIADAU

DIOLCH i'r rhai canlynol am eu rhoddion hael i'r Eco:
£1: Mrs. J.G.Jones, Gorffwysfa, Llanrug (Drwg gennym adael eich enw allan cyhyd). £1: Dienw o Fangor. £1: Megan L. Williams, Waunfawr. £1: Dienw, Llanrug. £5: Mr. a Mrs. W. Morris Jones, Rhuddlan (gynt o Gwm-y-glo).

## GWELD EU GWAITH

Arddangosfa o Olygfeydd Diwydiannol yng Ngogledd Cymru – trwy lygad yr artist:

**ORIEL PENDEITSH CAERNARFON**
**Mawrth 29–Ebrill 12**
**Llun– Gwener 10.30–4.30**

Mawrth 29 hyd Ebrill 12 caiff trigolion Arfon a'r cylch gyfle i weld yr arddangosfa ddiddorol hon sydd yn cael ei dangosiad cyntaf yn Oriel Pendeitsh, Caernarfon, cyn cael ei theithio trwy'r Gogledd.

Pur anaml y bu beirdd yn ymhyfrydu ym myd diwydiant, ac ysgrifennodd bardd enwocaf Gwynedd yn y ganrif hon am ffoi o'i "ddyffryn diwydiannol". Ar y llaw arall bu'r arlunydd yn syllu, mewn brwdfrydedd ac mewn braw, ar "olwg a hacrwch cynnydd" am agos i ddwy ganrif. Fel rhan o'r traddodiad hwn y comisiynwyd yr arlunwyr hyn gan Gymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru i seilio eu gweithiau ar themâu diwydiannol. Y mae'n hyfrydwch gennym eu cyflwyno, a charem hefyd ddiolch i'r Mri. Sotheby, Llundain, am eu cyfraniad ariannol i'r arddangosfa.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **Chymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru, 10 Ty Cae Ffynnon, Bangor, Gwynedd. (Ffôn: Bangor 53248).**

**Y RHIFYN NESAF**

**ALLAN EBRILL 27**
**Deunydd i law'r Golygyddion Perthnasol EBRILL 19**

# LLYTHYRAU

## HANES Y LLINELL GOLL

Annwyl Olygydd,

Mewn ufudd-dod i'ch cais yn y rhifyn diwethaf yn gofyn i awdur y llinell goll anfon ei enw, dyma fi'n anfon yr hanes yn llawn ichwi.

Yr oeddwn wedi bwriadu ar y dechrau i gadw fy enw yn gyfrinach ond sylweddolaf nad yw hynny yn deg â'r beirniad nac â'r ymgeiswyr eraill.

Fel hyn y darllenai'r pennill o'ch eiddo yn rhifyn Rhagfyr 1977:

**Saith deg saith sy'n dod i'w therfyn,**
**Jiwbili fu'n hawlio'r flwyddyn,**
**Hoffwn weld y flwyddyn nesa**
**........................................**

Yr oeddwn yn treulio'r Nadolig diwethaf yng nghartref fy merch yn Lleuar Bach. Fel ymhob cartref yr oedd yno brysurdeb mawr. Alan wedi mynd "rownd y defaid," Nain Llithfaen (mam Alan) yn mwynhau edrych ar y teledu, Wyn (unig fab Alan a Medwen, adref o goleg yn Rhydychen lle mae'n paratoi i fod yn fargyfreithiwr) yn prysur addurno'r goeden Nadolig, Medwen yn paratoi'r cinio a minnau gyda phensal a phapur yn trio gwneud y llinell goll.

Yr oedd y gair 'Jiwbili' yn ail linell y pennill wedi gwneud argraff arnaf a minnau yn gofyn i mi fy hun, "Jiwbili be' hoffwn ei weld yn 1978?" er mwyn gorffen y pennill! Cofiais yn sydyn y byddai Alan a Medwen yn dathlu Jiwbili eu priodas arian ymhen pythefnos, sef ar Ionawr 7, 1978. Dywedais yn fy nghalon, "Gobeithio y caf fyw i weld y diwrnod hwnnw." Ond y gamp oedd rhoi fy nymuniad mewn un llinell. 'Doedd hi ddim yn odli wrth imi ddweud "Jiwbili priodas arian Alan a Medwen.' Yn sydyn, dyma fi'n defnyddio hawl a rhyddid bardd i ddychmygu (dychymyg yw tri chwarter pob barddoniaeth). Disgynnodd y llinell "Jiwbili 'rhen Wil a finna" ar y papur mor naturiol ac esmwyth a chawod o law cynta' Mai.

Rhaid i mi eto egluro'r ffugenw, "Gwahoddiad i Bawb". Dyma fo.

Gwyddwn y byddai'r ffilm "Un Dyn a'i Gi" yn cael ei dangos ar BBC2 ddechrau'r flwyddyn. Gwyddwn mai Alan fyddai'n ennill y gamp gan fod y ffilm wedi ei gwneud yng ngogledd Lloegr ganol yr haf diwethaf. Cyd-ddigwyddiad rhyfeddol oedd i'r olygfa gyntaf o'r ffilm gael ei dangos o fewn ychydig ddyddiau i'r union ddyddiad y byddai Alan a Medwen yn dathlu Jiwbili eu priodas arian. Dyna fo yn dwad i'm meddwl i wahodd pawb i edrych ar y ffilm a thrwy hynny fwynhau dathlu'r briodas arian. Mae hi fel gwyrth i'r ddau ddigwyddiad fod mor agos i'w gilydd onid yw?



*Alan Jones, Lleuar Bach, Pontllyfni, pencampwr Treialon Cwn Defaid yn y ffilm a ddangoswyd ar BBC2, 'Un Dyn a'i Gi,' 1978.*



*Medwen, priod Alan Jones a merch Mari Lewis, Yr Herald Cymraeg a'r diweddar John Williams, Llys Awen.*

Ac wrth gwrs, cafodd pawb edrych ar y ffilm. Yr oedd miliynau yn llygad dyst ohoni, trwy Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Efallai y bydd y ffilm yn cael ei dangos trwy holl wledydd Ewrop ac yna i wledydd y byd. A phwy a ŵyr na fydd rhai o Gymry Bro Eryri yn edrych arni ym mhellafoedd y byd ac y cawn air ganddynt?

Rwy'n diolch fy mod wedi cael byw i ddathlu Jiwbili priodas arian fy merch a'i phriod. Diolchaf hefyd am yr anrhydedd a ddaeth i ran Alan ac am ei fuddugoliaeth.

Dyma englyn fy nhad ar eu priodas:

**Bendith heb un dibendod - i Alan**
**A'i wylaidd lân briod;**
**O Dduw da – da iddynt ddod**
**A rho hufen i'r Hafod.**

*Glan Rhyddallt.*

**Mari Lewis,**
**Yr Herald Cymraeg.**

---

*At y Golygydd,*

*CYCHOD LLYN PADARN*

*O weld ymholiad yn rhifyn 24 am fis Mawrth gan y Parch. Herbert Thomas, Llannor ynghylch cychod llechi yn suddo yn Llyn Padarn, gwelais gyfeiriad yng nghofrestr plwyf Llanrug yn 1848 gan y Parch. H. Bailey Williams. Arferai ef, a'i dad o'i flaen, wneud nodiadau gwerthfawr ar ddigwyddiadau cyfoes.*

*Ceir yn un lle, enwau pump a gladdwyd ar yr un pryd, ynghyd â'r nodiad canlynol:–*

*Boddwyd y pump hyn yn agos i Chwarel y Glyn trwy i'r cwch lenwi mewn scol, achubwyd un dyn, Jacob Williams, trwy lynu wrth y cwch, Mehefin 27, 1848.*

*Dyfynnwyd hwn yn "Hanes yr Achos Crefyddol y Methodistiaid Calfinaidd yn Llanrug 1783 – 1900" gan y Parch. J. Eiddon Jones 1904. Mae'n debyg mai cwch yn cludo chwarelwyr at neu o'u gwaith oedd hwn, gan mai prin y cludid chwech o weithwyr a llwyth o gerrig ar yr un siwrnai. Fodd bynnag, dyna gyfrif o un cwch arall a gollwyd.*

**R. W.**
**Rhosbodrual.**

---

*Annwyl Olygydd,*

*Trwy gyfrwng eich papur, hoffwn, ar ran disgyblion ac athrawon Ysgol Dolbadarn, ddiolch i'r rhieni a holl garedigion yr Urdd, Llanberis a'r Cylch am eu hymateb bendigedig i ymgyrch casglu arian tuag at y mudiad uchod, a hefyd am eu parodrwydd i gyfrannu danteithion o bob math at y te parti gogyfer â dathlu Dydd Gŵyl Dewi dydd Mercher, Mawrth 1af, 1978.*

*Hefyd hoffwn gydnabod parodrwydd Mr. William Aaron i ddod i'r ysgol i ddangos ffilmiau i'r plant, a hynny yn hollol ddi-dâl.*

*Diolch i'r athrawon am eu gwasanaeth amhrisiadwy er sicrhau llwyddiant yr Ŵyl.*

*Yn gywir,*

**Selwyn Pritchard**
*(Pennaeth-mewn-gofal)*
*Ysgol Dolbadarn.*


**W.J.GRIFFITH**
**PLYMAR**
**A GOSODWR**
**GWRES CANOLOG**

**PANT TIRION, LLANRUG**
*Ffôn: Caernarfon 3248*
**GOSODWR SWYDDOGOL**
**SYSTEMAU**
**GWRESOGI OLEW**

**BP heat**
**A SHELL-MEX**
**BP**

*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr.*

# WAUNFAWR

**DYMUNIADAU GORAU** – i Miss Jill Vanessa Williams, 17 Tref Eilian, a fydd yn dechrau ar ei gyrfa fel gweinyddes yn Ysgol Nyrsio Dewi Sant, Bangor.

**YR YSGOL FEITHRIN** – Aeth dros 70 o'r pentrefwyr i swpera i Westy'r Afr, Beddgelert, ar ddydd Gŵyl Dewi a chafwyd noson hynod o lwyddiannus a hwyliog. Diolch i bawb a gytunodd i gymryd rhan yn yr adloniant. Tynnwyd y raffl yn ystod y noson a'r enillwyr oedd: 1. Marion Iwan, Penyberth; 2. Iolo Eilian, Sycharth, Llanrug; 3. Mrs. Jones, Rhoslan; 4. Mrs. Roberts, Llys Helen; 5. Diane Davies, Tref Eilian; 6. Mrs. M. Turner, Collfryn.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i Mr. Owen a Mr. Jones, Y Becws, Mr. a Mrs. Walters, Y Llythyrdy, Mr. John Ferrarese, Modurdy Pant Waun, Marion Iwan, Penyberth, Mr. a Mrs. Thomas Siop Thomas a Thomas a Mr. Edwards, Y Cigydd am eu rhoddion.

Gwnaethpwyd elw o bron i £100 tuag at yr Ysgol Feithrin rhwng y noson a'r raffl. Diolch i bawb am bob cefnogaeth.

**MERCHED Y WAWR** – Te a chrempog a gafwyd yn y cyfarfod nos Iau, Chwefror 23ain, yn Neuadd yr Eglwys. Enillwyd y raffl gan Mr. Borth Jones. Gwnaed elw o £27.50 a fydd yn mynd at gronfa Eisteddfod Genedlaethol 1979.

**CYDYMDEIMLWN** – â Mr. J. Hughes Cae Main yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer.

**YN YR YSBYTY** – Dymunwn adferiad buan i Ceryl Davies, Tref Eilian baban Mr. a Mrs. D. Davies; i Mrs. Griffiths, Afallon a Mr. John Aled Owen, Dôl Erddi.

**O'R YSBYTY** – Dymunwn wellhad buan i Rhian, merch Mr. a Mrs. Gwynedd Williams, Bro Waun.

**DAMWAIN** – Cyfarfu Mr. Eifion Hughes, Tref Eilian â damwain tra'n dilyn ei waith, ond mae'n dda deall ei fod yn gwella.

**CLWB CANT Y BLAID** – Enillwyr mis Mawrth oedd: 1. Mr. T. Griffith, Ty'n yr Onnen (£8); 2. Carys Jones, Saron Wen (£4); 3. Carys Owen, Y Gilfach (£2.50).

**NOSON GOFFI** – Cynhelir Noson Goffi ar Ebrill 7ed yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 tuag at Gapel Moriah.

**GENEDIGAETH** – Ganwyd merch, Kate Helen, i Mr. a Mrs. Rodd, Graig Lwyd.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL** – Etholwyd y canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor am 1978/79: Mrs. M. Awstin Jones, Mrs. Katie Wyn Jones, Mrs. Menna Williams, Mrs. Catherine Jones (Bryn Gwenallt), Miss Ifanwy Rhisiart, Mri. W.V. Jones, Robert Jones, Emlyn Davies, E. Wynn Jones a Rol Williams.

**CLWB GWYRFAI** – Bydd y daith flynyddol eleni ar Fai 31ain a threi Pwllheli fydd yr atyniad.

**CRONFA'R EISTEDDFOD GENEDLAETHOL** – Cafwyd darlith arbennig o ddiddorol gan Dr. Gwyn Thomas, Adran y Gymraeg, Coleg y Brifysgol Bangor yn Festri Croes y Waun ar Fawrth 6ed a'i destun oedd 'Ysbrydoliaeth'.

Gwnaethpwyd elw o £12 tuag at Gronfa'r Eisteddfod.

**LLONGYFARCHIADAU** – i R. Geraint Williams, Tir na-Nog, Henllan, Clwyd ar gael ei benodi yn brifathro Ysgol Bodffari. Mae yn 29 oed ac yn dod o Gaernarfon. Mae ei wraig Ann yn ferch i Mr a Mrs E. Wyn Roberts, Dwyros. Mae ganddynt ddau o blant, sef Gwenan Haf ac Owain Llŷr.

## CÔR YSGOL GANOL LLANRUG



*Côr Ysgol Ganol Llanrug a enillodd pan gynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Lerpwl (tua 47 mlynedd yn ôl?)*

*Rhes ôl (o'r chwith i'r dde: Jackie Williams, Martha Jones, Penrhyn; Sidney Evans, Tai Croesion; Laura Jenkins; Meirwen Griffith; Emrys Williams, Ty'n Winllan;*
*3ydd rhes: Gwyneth Reynolds; Meinir Thomas; Elizabeth Bacton Jones; Meira Wilson (tu ol i'r gwpan); Mair Williams, Pen Lon; Annie Ceridwen Parry, Cwm-y-glo; Rosie Jones, Cwm-y-glo.*
*2ail res: Sydney Roberts, Tyddyn Rhyddid; Geini Griffith; Sydney Roberts, Cwm-y-glo; Mr. W. Roberts, B.Sc. (arweinydd); Mr. G.T. Roberts, M.A.; Gwyneth Hughes; Enid Whiteside Jones; Ceridwen Parry.*
*Rhes flaen: Mona Morris; Megan Lloyd; Ceridwen Roberts; George Llywelyn Jones; Dafydd Isfryn Jones; Gwyrfai Williams; Nettie Jones; Gwladys May Evans, Tai Croesion.*
*Y llun trwy garedigrwydd Mrs. Elizabeth Knox, Bron Haul, Llanrug. Diolch iddi hi a Mrs.Enid Wh. Thomas am enwi'r aelodau.*

# DINORWIG

**CYMDEITHAS UNDEBOL LENYDDOL** – Nos Fercher, Chwefror 22 yn y Ganolfan bu cyfarfod olaf y tymor eleni. Mewn rhaglen o 'Frethyn Cartref' cymerwyd rhan mewn canu, adrodd a sgetsiau gan y rhai canlynol: Miss Annette B. Roberts; Miss Olwen Roberts, Miss Marina B. Roberts; Mrs. Betty Peris Roberts; Mr. Ifan B. Roberts; Mrs. Gwladys Evans; Mrs. Lona B. Lewis; Mrs. H.M.Roberts; Mr. R.E.Williams; Mr. D.L. Hughes; Mr. D.J.Thomas; Parti'r Hogia Ifainc a 'Rhai Hyn'. Llywyddwyd y gweithgareddau gan y Parch. Ifor L. Williams, Bangor a Mr. O.R.Williams. Talwyd y diolchiadau gan Mr. R.E. Williams. Dewiswyd pwyllgor am y flwyddyn nesaf: Swyddogion– Llywydd Mr. R.H.Williams, Tŷ Capel Dinorwig; Trysorydd Mrs. H.M.Roberts, Tŷ'r Ysgol; Ysgrifennydd Mr. D.Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian.

**CYFARFOD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD** – Dydd Gwener, Mawrth 3 cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn Festri Dinorwig. Arweiniwyd gan Mrs. Alice Griffith, Tan y Bwlch; Cyfeiliwyd gan Mrs. Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian. Hi hefyd ddarllenodd yr anerchiad. Cymerwyd rhan gan Mrs. Medwen Griffith, Foel, Mrs. M. Roberts, Glanygors, Mrs. Katie Griffiths, Arwelfa, Mrs. Dora Jones, Bryn Hyfryd, Miss E. Thomas, Llidiard y Clo, Mrs. M. Hughes, Groeslon Uchaf, Mrs. Elizabeth Jones, Foel Gron, Mrs. Annie Roberts, 3 Maes Eilian, Mrs. Annie Jones, 5 Maes Eilian, Mrs. M. Evans, Dublin House, Mrs. I. Thomas, Ty Capel Sardis. Cafwyd cyfarfod bendithiol iawn. Casglwyd £3 i'w hanfon i fudiad Byd-eang y Chwiorydd tuag at lenyddiaeth Gristnogol. Gwnaed y trefniadau gan yr ysgrifennydd, Mrs. Nellie Williams, 2 Bro Elidir.

**PRIODAS EURAIDD** – Llongyfarchiadau calonnog iawn i Mr. a Mrs. D. R. Jones, Bron Myfyr, Dinorwig, a fyddant yn dathlu eu priodas aur ar Ebrill 11

**YN YR YSBYTY** – Dymunir gwellhad buan i Miss Nora Williams, Padarn Stores, Fachwen yn Ysbyty Bryn Hyfryd, Dinbych, a Mr. John H. Williams, 7 Maes Eilian, Dinorwig yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.

**O'R YSBYTY** – Croesewir gartref wedi triniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon Mrs. M.E.Jones, Ty'n Fawnog. Parhaed hi i wella a hefyd amryw o'r ardal sydd wedi bod yn cwyno yr ddiweddar.



*Clwb Ieuenctid Dinorwig yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Marine, Caernarfon ynghyd â'u harweinydd Emlyn Hughes. Mae'r Clwb yn cyfarfod bob nos Fawrth, ac mae yno oddeutu 35 o aelodau. Cafwyd llu o nosweithiau difyr dros y gaeaf, megis ymweliadau gan swyddogion banc, heddlu, llywodraeth leol ac ati, i egluro eu gwaith. Ymwelwyd â Chlwb Llandegai, Bangor a buont hwythau yn eu tro yn Ninorwig. Pery'r gweithgareddau tan 2 Mai 1978 ac yna bydd egwyl tan 19 Medi.*

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR


**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**

Gwaith Coffäol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

FFÔN
CAERNARFON 2898

# LLANRUG

**Y GYMDEITHAS UNDEBOL** – I ddiweddu'r tymor dathlwyd Dydd Gŵyl Ddewi ym Mhlas Tan Dinas. Y westeiwraig oedd Mrs.Diana W. Griffiths, Porthmadog, (gynt o Bontrhythallt). Yn dilyn cafwyd eitemau gan Mrs. J. Llewelyn Williams a Gwyn Roberts, a chainc ar y delyn gan Mrs. Megan Roberts, Gregynog.

Edrychir ymlaen am Daith Hanesyddol yn ystod mis Mehefin yng nghwmni Miss Mat Pritchard, Rhosbodrual. Y swyddogion am y flwyddyn nesaf yw: Llywydd: Mrs. M. Lloyd Williams, Llys Awen; Trysorydd: Mr. Ifor Williams, Gwelfryn; Ysgrifenyddes: Mrs. E. Whiteside Thomas, Dol war.

**MERCHED Y WAWR** – Cynhaliwyd noson o 'Frethyn Cartref' yn yr Ysgol Gynradd, nos Fawrth Mawrth 14. Doniau'r gangen a gymerai ran. Parti Canu a Cherdd Dant yng ngofal Mrs. Lovatt, Parti Cyd-adrodd – Mrs. L. Horman, Dawnsio Gwerin – Mrs. Beth Anne Williams, Drama fer – Mrs. Ann Llwyd. Cafwyd detholiadau ar yr acordion gan Mr. Roberta Griffith a cheinciau ar y delyn gan Mrs. Megan Roberts (hi hefyd a gyfeiliai i'r Cor a'r Parti Cerdd Dant). Diolchodd y llywydd, Mrs. Nansi Roberts i'r perfformwyr a'r aelodau am eu gweithgarwch. Darparwyd lluniaeth flasus a diolchwyd gan Mrs. Nesta Pritchard. Disgwylir Dr. John Gwilym Jones i'r cyfarfod nesaf a gynhelir nos Fawrth, Ebrill 11.

**CLWB BLODAU'R GRUG** – Cyfarfu'r aelodau yn y Sefydliad Coffa yn ddiweddar. Llywyddwyd gan y Rheithor a'r gŵr gwadd oedd Mr. R. Williams, Rhosbodrual (gynt o Lanrug). Siaradodd Mr. Williams ar yr 'Hen Lanrug' a chafwyd pnawn diddorol dros ben. Diolchwyd iddo gan Mr. J. Griffith Jones. Paratowyd y te gan Mrs. Spratt a Miss Jones, Glanllyn, Mrs. Jones, 8 Glanmoelyn a Mrs. Parry, Morannedd. Bydd y cyfafod nesaf ar Ebrill 13.

**COFIWCH AM CAMP A RHEMP!** – Cynhelir noson o Gamp a Rhemp, o dan nawdd Pwyllgor Rigarug yn neuadd Ysgol Brynrefail nos Lun, Ebrill 10 am 7.30 o'r gloch. Yn cystadlu bydd Mri. Harri Gwynn, John Roberts Williams, Rol Williams, I.B. Griffith a'r Parch. Harri Parri. Bydd cystadlaethau i'r gynulleidfa hefyd. Edrychwch yn ffenestri'r siopau am ragor o fanylion.

**PLAID CYMRU** – Cynhaliwyd Noson Goffi yn y Sefydliad Coffa nos Wener, Mawrth 17, gydag adloniant gan barti o gangen Llanberis. Cafwyd noson ddifyr iawn. Mae'n amlwg fod digon o dalentau lleol ar gael. 'Roedd nifer fawr yn bresennol a diolchwyd i bawb am eu gwasanaeth gan y Cynghorydd Gwyndaf Jones.

**UNDEB Y MAMAU** – Bu cyfarfod o'r aelodau yn Y Rheithordy yn ddiweddar. Agorwyd drwy weddi gan y Rheithor a llywyddwyd gan Mrs. D.G. Williams. Ymdriniwyd ag amryw o faterion. Y gwestwragedd oedd Mrs. Spratt a Miss A.C. Jones, Glanllyn. Diolchwyd iddynt gan Mrs. Williams, Y Rheithordy.

**DIOLCH** – Cafwyd Ffair Sborion lwyddiannus yn Ysgol 'Feed my Lambs' o dan nawdd Pwyllgor Merched y Seindorf. Dymuna'r merched ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag ati, a gynorthwyodd i gludo'r nwyddau ac a ddaeth yno i brynu. Diolch hefyd i Awdurdodau Eglwys Llanbeblig am gael benthyg yr adeilad.

**BEDYDDIO** – Prynhawn Sul, Mawrth 5, yn y Capel Mawr bedyddiwyd Matthew Wyn, mab bychan Mr. a Mrs. Bryn Vaughan Williams, 4 Sgwâr Glynllifon, Groeslon. Gweinyddwyd gan y Gweinidog, y Parch. W.O. Roberts.

**CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR** – Cynhaliwyd Noson Goffi, nos Iau, Mawrth 2il. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs. Nancy Roberts, Annedd Wen. Anfonwyd cofion at y chwiorydd oedd yn wael a chydymdeimlwyd â'r rhai mewn profedigaeth. Cyflwynwyd rhodd anrhydeddus o Gronfa'r Chwiorydd i Drysorydd yr Eglwys. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. Olwen Llywelyn, Pantafon Bach a Mrs. Nancy Lovatt, Brwynog. Diolchwyd iddynt gan y llywydd, Mrs. Nancy Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Ebrill 6ed.

**CYFARFOD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** – Cynhaliwyd y cyfarfod gweddi gan chwiorydd eglwysi Llanrug yng Nghapel y Bryngwyn, brynhawn Gwener, Mawrth 3. Cymerwyd rhan gan Mrs. Megan Williams, Dwyfor a Miss Megan Humphreys (Tanycoed). Mrs. Amy Smith, Hedsor Villa a Mrs. Mary Lloyd-Williams, Llys Awen (Pontrhythallt). Mrs. G. Jones-Evans, Bro Rhyddallt (Hermon). Mrs. Inigo Jones, Eilionwy (Bryngwyn) a Mrs. Nancy Jones, Madryn; Mrs. Myfi Roberts, Tai Plastirion; Mrs. M. Williams, Gweledfa a Mrs. M. Owen, Glasgoed o eglwys y Capel Mawr. Cyfeiliwyd gan Mrs. Megan Roberts, Gregynog (Bryngwyn). Arweiniwyd gan Mrs. Nancy Roberts, Annedd Wen.

**CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR** – Daeth tymor Cymdeithas Addysg y Gweithwyr i ben ganol fis Mawrth. Teimlai pawb iddo fod yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus a gafwyd yn yr ardal. Dr. Cyril Parry oedd yr athro, a'r testun oedd 'Problemau Cyfoes'. Y swyddogion oedd: Llywydd: Mr. Oswald Davies, Plas Gwyn. Ysgrifennydd: Miss Jackson, Caernarfon; Trysorydd: Mr. John Wyn Owen, Llain-y-Delyn. Cafodd y dosbarth wahoddiad i dreulio noson ddifyr ar aelwyd yr athro a'i deulu. Cafodd Mrs. Ann Jones (gynt o Ddinorwig) wahoddiad hefyd. Ar ol mwynhau swper campus cafwyd noson o eitemau amrywiol. Llywyddwyd gan Mr. John Wyn Owen yn absenoldeb Mr. Davies a oedd wedi mynd ar daith i Israel. Cyflwynodd Mrs. Rowlands, Cwm-y-glo flodau i Mrs. Parry ar ran y Dosbarth. Rhoddwyd anerchiad i ddiolch gan Mrs. E. Owen, Bryn Maen Siaradodd amryw o'r aelodau. Cyflwynodd Mari Lewis englyn o gopi ei thad, Glan Rhyddallt, oedd yn briodol hefyd i gyfarch Dr. Parry

**Un medrus ei ymadrodd, - yn annwyl**
**Tynnai goes gwŷr anodd;**
**Ein dadl hir yn glir iawn glodd,**
**Hwn â'i synnwyr a'n swynodd.**

Y mae aelodau'r Dosbarth yn edrych ymlaen at y tymor nesaf ac wedi dewis yr un athro eto.

**CYMDEITHAS LENYDDOL Y CAPEL MAWR** – Ddiwedd Chwefror cafwyd noson yng nghwmni Parti Cerdd Dant Merched y Wawr, Llanrug, dan ofal Mrs. Lovatt, Brwynog a Mrs. Megan Roberts, Gregynog wrth y delyn. Mwynhawyd y noson yn fawr gan bawb. Diolchwyd gan Mrs. Davies, Plas Gwyn a Mrs. Myfi Roberts, Tai Plastirion. Llywyddwyd gan Mrs. W.O.Roberts, Annedd Wen.

Nos Fercher, Mawrth 8fed aeth aelodau'r Gymdeithas a'u ffrindiau i Blas Tandinas i ddathlu Gŵyl Ddewi ac i ddiweddu'r tymor. Y wraig wadd oedd Mrs. Nan Huws-Roberts, Waunfawr (Madryn gynt) a chafwyd anerchiad gwych ganddi am yr amser yr oedd yma gyda ni yn y Gymdeithas. Rhoddodd Mrs. Roberts rodd anrhydeddus i'r trysorydd a dymuna'r Parch. W. O. Roberts a'r holl aelodau ddiolch yn fawr iawn iddi. Treuliwyd noson lawen hwyliog yng ngofal Mrs. M. Jones, Ogwen, Mrs. N. Lovatt, Brwynog, a Mrs. Horman, Venice. Llywyddwyd gan y Parch. W.O.Roberts a diolchwyd i bawb gan Mr. John Wyn Owen, Llain-y-Delyn a Mr. Alfred Parry, Bryn Heli.

**DAMWAIN** – Drwg gennym glywed am ddamwain Mrs. Mary Jones, Bryn Fedwen. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chi, Mrs. Jones.

**MARWOLAETH** – Trist oedd clywed am farwolaeth Miss Grace Williams, Glasgoed, Rhos Rug. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'r teulu i gyd.

**GWELLHAD BUAN** – Dymunwn wellhad buan ac anfonwn ein cofion at y canlynol: Mrs. J. Owen, Glanrafon sydd wedi bod yn gaeth i'w chartref ers peth amser; Mrs. Griffiths a'i mab Mr. Alwyn Griffiths, Orwig House; Mrs. M.E.Shilton, Tan-y-coed, sy'n gwella yn foddhaol ar ôl yr anhwylder a fu ar ei llygaid; Mrs. Thomas, Y Llythyrdy sydd yn yr ysbyty ym Mangor; Mrs. J. Williams, 17 Bro Rhyddallt a Carol Regan, 43 Bro Rhyddallt sy'n gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

**CARNIFAL LLANRUG** – Cynhaliwyd pwyllgor Carnifal ar Fawrth 7fed a phenderfynwyd dechrau yr wythnos ar y 18fed o Fehefin, ac felly, bydd diwrnod y Carnifal ar y 24ain o Fehefin.

**SWPER GŴYL DDEWI** – Darllenwyd y ddau bennill canlynol yn Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Pontrhythallt Hermon, Bryngwyn a Thanycoed ym Mhlas Tandinas, Dinas Dinlle eleni i groesawu'r wraig wadd sef Mrs. Diana Whiteside Griffith, Porthmadog (Pontrhythallt gynt).

**Diana yr Effesiaid**
**Oedd fawr, – a dyma ni**
**Yn denu un Diana**
**Sydd eto'n fawr ei bri.**
**Mor dda, Diana Griffith,**
**I bawb sydd yma 'nghyd**
**Yw rhoddi ichwi'r croeso**
**Cynhesaf yn y byd.**

**Diana ymhlith Cymry**
**Sy'n taenu nodau mwyn,**
**Diana ymhlith doniau**
**Sy'n siriol a llawn swyn.**
**Diana ydyw'n hannwyl**
**Westeiwraig heno'n llon,**
**A boed ein diolch iddi**
**Yn groyw ym mhob bron.**

**Cyfaill.**

**LLONGYFARCHIADAU** i dad a mam ar ddathlu eu priodas arian ar Fawrth 21 – Beryl, Ogwen, Llanrug.

**NEWYDDION CYNGOR** –
**Lamp wrth Groeslon Marc.** Cafodd y Cynghorydd Pat Larsen addewid ysgrifenedig gan Syrfewr y Sir fod "trefniadau mewn llaw i ailosod lampau rhwng Pontrhythallt a Groeslon Marc, Llanrug yn y dyfodol agos."
**Pontydd Llanrug.** Addewid arall a dderbyniodd Mrs. Larsen yw y bydd Cyngor Sir Gwynedd yn trwsio un o'r pontydd ger Pontrhythallt ac y bydd y Bwrdd Rheilffyrdd Prydeinig yn atgyweirio'r ddwy arall yn y dyfodol agos.

**PLAID CYMRU** – Bydd cynrychiolaeth gref o undebwyr llafur o Lanrug a'r cylch yn mynd i gynhadledd arbennig Undebwyr Llafur Plaid Cymru yng Nghaerdydd ar Ebrill 15. Mae peth lle eto ar y bws a drefnwyd i fynd i lawr. Cysylltwch ag Eurig Wyn, Caernarfon 2076 am fanylion.

**BEDYDD** – Sul y Pasg yng nghapel Mawr bedyddiwyd Ryan Marcus, mab Mr. a Mrs. John Michael Kift, 15 Stad Talybont. Gweinyddwyd gan y Parch. W.O. Roberts.

# LLECHI DINORWIG I GYLCH YR ORSEDD?

**Mae eisiau 12 o feini union a maen llog sydd mewn cyflwr da a naturiol ar gyfer Cylch yr Orsedd.**

Yn wahanol i'r arfer, clogfeini llechfaen a ddefnyddir ac nid meini fel y cyfryw. Gobeithir eu cael o domeni llechi Chwarel Dinorwig gynt, lle lleolir cynllun gorsaf bŵer miliynau o bunnoedd ar hyn o bryd.

Dywedodd Mr. Roberts mai dim ond yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1971 y defnyddiwyd slabiau llechfaen o'r blaen yn hytrach na'r wenithfaen draddodiadol neu'r pileri carreg galch, sydd fel arfer yn cael eu cysylltu â Chylch yr Orsedd.

Eglurodd, "Mae llechfaen yn dueddol o hollti, ac yn anos i'w thrin i'r maint a'r siâp iawn."

"Mae'n rhaid i Feini'r Orsedd fod yn weddol gyfartal o ran maint, fel arfer tua 5' o uchder a 1½' o ran bob ffordd.

Mae'n bur debyg y lleolir Cylch yr Orsedd mewn man sy'n edrych dros y Fenai, er nad yw'r trafodaethau wedi eu cwblhau eto.

Bydd hyn hefyd yn newydd yng Nghaernarfon oherwydd yn y gorffennol cynhaliwyd seremoniau'r Orsedd, gyda'u holl rwysg a'u hysblander o fewn muriau'r Castell.

Dyma'r wythfed gwaith o fewn 99 mlynedd i'r Eisteddfod Genedlaethol gael ei chynnal yng Nghaernarfon. Ond ers yr Eisteddfod yn 1959, nid yw lawntiau'r castell yn addas ar gyfer seremoniau'r Orsedd gan iddynt gael eu newid ar gyfer yr Arwisgo yn 1969.

STORFA
Mace
S.&E. Jones
Llanrug

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD

# LLANBERIS

**CÔR PLANT SUMMER HILL** – Dymuna Miss Clarice Williams, a genethod Côr Llanberis ddiolch i'r rhai a drefnodd y Disco yn y Ganolfan ym mis Chwefror. Gwnaed elw o £36.35 tuag at dreuliau'r Côr i fynd i Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd eleni.

Enillwyd y raffl gan: 1: Mr. Bowles MBZ; 2: M.S. Williams, Nant Forgan, Cwm-y-glo; 3: Mrs. Joyce Jones, 27 Dol Elidir.

Bydd y treuliau cludo ac aros yn y brifddinas yn drwm iawn ar y Côr. Bydd taliadau y bws oddeutu £150. Mae costau aros yn £2 yr un a bydd yn rhaid aros am ddwy noson. Mae costau bwyd ar ben hyn eto. Rydym wedi casglu ychydig yn barod trwy gynnal Disco, Arwerthiant a Thaith Gerdded Noddedig, ond mae angen llawer o arian i glirio'r costau. Byddwn yn ddiolchgar iawn o unrhyw gymorth a gawn, ac fe geisiwn ddangos ein gwerthfawrogiad trwy wneud ein gorau yn yr Eisteddfod.

**YR URDD** – Llongyfarchiadau i Catrin Lennon, Plas Tirion ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth canu dan 12 oed, ac i'r Parti Recorders am ddod yn drydydd yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor.

Llongyfarchiadau i'r canlynol hefyd am ddod yn fuddugol yn yr Adran Celf a Chrefft Sir Eryri.

Argraffiad ar glustog: 1: Bethan Jones; 2: David Addie; 3. Derek Lloyd Hughes.
Tegan Meddal: Broga: 2: Iorwen Jones
Pincas: 1: Heddwen Hughes
Cas pensiliau: 1: Fiona Jones
Cas i ddal gwisg nos: 1: Anita Guck

**LLONGYFARCHIADAU** – Cafwyd pleser mawr iawn gan yr hen a'r ifanc wrth ddilyn rhaglenni teledu Emlyn Davies, ar bynciau gwir Gymreig. Dylid ei longyfarch ar ei ddull arbennig o gyflwyno ei bwnc oedd mor hamddenol a dealladwy. Gobeithir y ceir mwy o raglenni tebyg i'r rhain a gafwyd. Mab Mrs. Cassie Davies, Dôl Elidir yw Emlyn.

**MARWOLAETH** – Trist oedd clywed yn ystod y mis am farwolaeth Mrs. M.W. Humphreys, Dôl Eilian. Cydymdeimlwn yn fawr â'i theulu oll.

**CYNGERDD** – Cynhaliwyd Cyngerdd Gŵyl Dewi yn Ysgol Dolbadarn ddydd Mercher y cyntaf o'r mis. Y wraig wadd oedd Miss Megan Humphreys, Llanrug, cyn-athrawes o'r ysgol. Yn y prynhawn dangoswyd ffilmiau i'r plant gan Mr. William Aaron.

**DIOLCH** – Dymuna Gareth a Christine 12 Llainwen Isaf ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion oll am eu caredigrwydd pan anwyd eu mab.

**DYWEDDIO** – Llongyfarchiadau i ddwy ferch o'r pentref. I Miss Mona Lewis, Cilan, ar ei dyweddïad â Mr. Dylan Williams, 9 Bro Rhos, Bethel. I Miss Deirdre Morris, 26 Maes Padarn, ar ei dyweddïad â Mr. Gareth Parry, Llanrug.

**YN YR YSBYTY** – Dymunwn adferiad buan i Mr. John Prydderch, Bronallt, sy'n Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor Mae Mr. Evan Roberts, Olgra Terrace, Mr. W.G. Pritchard, Y Fflatiau a Mr. Iwan Williams, Bryn Idris yn gwella'n dda ar ôl cael triniaeth llawfeddygol.

**CRONFA EISTEDDFOD '79** – Yr enillydd yn raffl Chwefror oedd Mrs. Freda Roberts, Penisarwaun. Enillydd y Bocs Siocled, rhodd gan Mrs. Evans, Gift Shop, oedd Mrs. J. Jones, 70 Maes Padarn.

Raffl Ebrill fydd Cwilt Gwely wedi ei wneud o sgwariau a wauwyd gan ferched o'r pentref. Diolch yn fawr i'r rhai a fu wrthi'n ddygn yn gwau.

Cynhelir Disco nos Wener, Ebrill 14 yn y Ganolfan. Plant Dolbadarn o 7.30 tan 9. Plant Hyn o 8.30 tan 10.30.

Nos Sadwrn, Ebrill 22, bydd noson o 'Ganu Codi'r To' dan arweiniad Mr. Arwel Jones, yng Ngwesty Padarn Lake, pryd y ceir pryd o gyw iâr a sglodion. Pris tocyn yw £1.75.

Dim ond 90 o docynnau a werthir, felly os am docyn cysylltwch â Miss Jane Morris. Mae lle i ychydig eto i ymuno â'r Clwb 300. I'r sawl â diddordeb cysylltwch â Mr. John G. Williams, Eirianfa, Ffordd Capel Coch. Ffôn: Padarn 254.

Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn. Diolch i chwi fod y Gronfa erbyn hyn yn £774.33 Bydd y Pwyllgor nesaf nos Fawrth Ebrill 25 yn Ysgol Dolbadarn am 7.30.

**GENI** – Mawrth 6ed yn Ysbyty Maelor Wrecsam i Linda a David Passe, ganwyd merch, GWENAN MELERI, chwaer i Dafydd Meirion.

**CLWB METHEDIG ERYRI** – Cynhaliwyd cyngerdd ar Chwefror 27 i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn y Ganolfan. Yr aelodau eu hunain oedd yn cymryd rhan, a'r arweinydd oedd Mr. Ted Thomas. Mr. Thomas hefyd oedd yn arwain y canu emynau.

Y rhai a gymrodd ran oedd George Morris, Llanrug a Ted Thomas. Canwyd adroddiad o waith T.Rowland Hughes gan Mrs. Katie Williams, Derwen Deg, Ffordd Tŷ Du. Diddanwyd y cynulliad hefyd gan Mrs. Gwyneth Chick, Tan y Bryn, Cwm-y-glo gydag adroddiad.

Cafwyd gair gan y llywydd Miss A.M.Jones S.R.N. , Ardwyn, Ffordd Capel Coch, Llanberis. Mynegwyd diolchiadau gan y cadeirydd Mr. J. Pierrot, Penisarwaun, a'r is-gadeirydd Mr. Griffith Owen, Maes Padarn. Y gwesteion oedd Merched y Wawr cangen Cwm-y-glo.

**CYDYMDEIMLWN** – yn ddwys â theulu Mr. W.A. Williams, Stryd y Dŵr a fu farw ddiwedd y mis. Er iddo ddioddef afiechyd am amser maith credai fod llawer mewn gwaeth cyflwr ac ymroddodd i gynorthwyo llawer llai ffodus nag ef ei hun. Gwêl llawer golled ar ei ôl. Arweiniwyd y gwasanaeth yn y tŷ ac ym mynwent Llanrug gan y Canon Alun Jones.

**FFARWELIO Â'R ARDAL** – Ddechrau'r mis yma bydd lan a Vida Harris yn ymadael o'r Erw Fair i Fangor i fyw. Ar ran yr ardal hoffem ddiolch yn fawr iddynt am eu gwasanaeth a'u caredigrwydd. Cafodd aml i bentref bryd o fwyd blasus ganddynt yn yr Erw Fair Dymunem bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd a phob llwyddiant i'r plant, Debbie, Julie a Gavin yn eu hysgolion newydd.

# BETWS GARMON

**CRONFA'R EISTEDDFOD** – Mewn pwyllgor a gynhaliwyd yn Festri Capel Salem nos Wener, Mawrth 17 penderfynwyd gynnal Noson Goffi ac Arwerthiant yn Nhyn y Weirglodd nos Iau, Mai 18. Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir y pwyllgor nesaf ar nos Wener Ebrill 14.

# CEUNANT

**O'R YSBYTY** – Croeso adre i Mrs. Peggy Jones, Hafod Owen a Mr. Frost, Menai Villa o ysbyty C. & A. Bangor. Dymunwn wellhad buan i'r ddau.


CYN TROI I BELLAFOEDD BYD — DEWCH I WELD Y Marina AR GARREG EICH DRWS.






CAR DA, DIOGEL DIBYNADWY. BRITISH LEYLAND AR EU GORAU! GWARANT 12 MIS – FAINT BYNNAG A DEITHIWCH

MAE GENNYM GEIR AIL LAW RHAGOROL HEFYD!

BRITISH LEYLAND Morris

GAREJ MINFFORDD BETHEL FFÔN Y FELINHELI 451

T.R.& S.EVANS GAREJ GWALIA CAEATHRO Ffôn: CAERNARFON 3096

# Llannerch Y Llenor



gan SELWYN GRIFFITH

Dyna fis Mawrth arall wedi mynd. Bu'n fis prysur fel pob mis Mawrth ers rhai blynyddoedd bellach. Mis i Eisteddfota. 'Steddfod y Bala a Steddfod Ysgol Dyffryn Nantlle, Gŵyl Ffermwyr Ifainc Môn a Steddfod Urdd ein cylch ni yn Ysgol Brynrefail. 'Steddfod Gadeiriol Flynyddol Cymry Llundain, (a sôn am y croeso a gafodd T. Gwynn Jones a minnau gan Gymry'r Brifddinas). Yna dros ben-wythnos y Pasg – Steddfod Dinas Mawddwy a Steddfod Uwchmynydd – gŵyl John Morris Aberdaron – chwith meddwl nad yw gyda ni, 'roedd ei le yn wag yng ngŵyl Uwchmynydd eleni.

'Roeddwn yn falch iawn o gael y cyfle i feirniadu talentau y bröydd hyn yn Eisteddfod yr Urdd yn Ysgol Brynrefail. 'Roedd yna safon uchel i'r cystadlu. YMFALCHIWN YN EIN TALENTAU LLEOL, a phob dymuniad da i'r plant a lwyddodd i gyrraedd Llanelwedd.

'Roedd 'na gystadlu brwd yn Eisteddfod Cymry Llundain hefyd a chefais flas arbennig ar rai o'r cynhyrchion llenyddol.

Testun y Soned yno oedd Ieuan Gwyllt, a chan fod cysylltiad lleol, a hithau'n flwyddyn cofio Ieuan Gwyllt, fe gyhoeddaf y soned.

**IEUAN GWYLLT**

**Yngngolau'r fflam gynheuwyd ym Mhenllwyn**
**Disgleiriodd ei 'sgolheictod drwy y tir,**
**A gwerin effro'n profi grym a swŷn**
**Ei radicaliaeth iach a'i neges glir;**
**O'r cyrion draw i Lerpwl deuai'r praidd**
**I gyrchu 'Blodau Cerdd' ei gasgliad gynt**
**Fel un cymanfa frwd, fel cae o haidd**
**Yn tonni'n aeddfed dan ddiwygiol wynt.**
**Fe dynnodd yntau megis magned gref**
**Fetel athrylith cenedl iddo'i hun**
**A rhoi yn ôl yn sicr wŷs o'r Nef**
**Mewn geiriau dethol a chynghanedd gun;**
**Os tawel yng Nghaeathro yw y gân**
**Parhawn i diwnio'i glod mewn odlau glân.**

Mae'r barodi fuddugol yn amserol iawn hefyd o gofio'r gurfa a gafodd Cassius ddechrau'r mis. Dyma hi:

**Wyt ti'n cofio'r lloer yn codi**
**Wedi'r ddyrnod yn y 'ring',**
**Er it ddwedyd y câi Spinsci**
**Gennyt un anfarwol 'swing'?**
**'Rwyt ti'n colli'r tir 'rhen gariad,**
**Beth ddigwyddodd i dy draed?**
**Wyt ti'n cofio rhywbeth, dywed,**
**Gyda'th wep i gyd yn waed?**

**Mae dy ddyrnau yn gwneud imi**
**Feddwl am ddau lwmp o does,**
**Dan dy gyrliog wallt canfyddaf**
**Ddau chwyddedig lygad croes;**
**Siâp dy wyneb Ali annwyl,**
**Sydd fel Frazier yn ddi-lun,**
**Ac fel tolciau brech y lleuad**
**Ydyw'r marciau ar dy lun.**

**'Nawr ti, Casiws, yw'r ail ffidil**
**Ar ôl troedio'r byd fel cawr,**
**Felly, taw â'th dara-didl**
**Mae dy goron ar y llawr;**
**Cefaist ergyd mor syfrdanol,**
**Ali druan, ar dy geg,**
**Trof i gyfarch campwr newydd**
**Gwranda dithau – "Wyth, Naw, Deg"**

Cystadleuaeth ddiddorol iawn yn Steddfod Llundain oedd llunio chwe dihareb. Cefais berlau yn y gystadleuaeth hon. Dyma rai ohonynt:

**Hawdd dilyn ôl troed yn yr eira**

**Treiddia llygedyn bach o oleuni i'r tywyllwch.**

**Petai pob un yn glanhau carreg drws ei dŷ ei hun, byddai'r stryd yn lân.**

**A heuo gas a fed gur.**

**Ni ddaw mawl lle bydd malais.**

**O grafu'r graith y dolur ddaw eilwaith**

**Y gwybodus a edwyn ei anwybodaeth.**

I gloi'r Llannerch am y tro fe ddychwelwn o Lundain i Eisteddfod Ysgol Brynrefail, a phleser yw cael cyhoeddi y gerdd fuddugol a enillodd y gadair i Anwen Jones, Penisarwaun.

Ia, wir, fe'i dywedaf eto – ymfalchïwn yn ein talentau lleol.

**DAGRAU**

**Safodd yn syfrdanol**
**wrth y bae,**
**Ei ddagrau hallt**
**yn dyfrio lawr ei wep**
**I lonyddwch y môr....**

**Ac nid oedd gŵr ar y gorwel**
**Na llong yn aredig y lli.**

**Syllodd i'r gwyll –**
**Y dagrau'n gwlitho ei ruddiau**
**pruddion,**
**yn gorlifo ei lygaid**
**niwlog;**
**Yn codi hiraeth arno . . .**

**Gwelodd yr haul, a'r wylan**
**Yn breuddwydio cylchoedd**
**dan ei anwes esmwyth.**

**Gwelodd y tonnau tyner**
**a'u bysedd yn rhedeg yn esmwyth**
**hyd groen y traeth.**

**Ond dyn a ddaeth â'i syniadau enbyd,**
**I ddinistrio . . . .**
**I chwalu . . . .**
**I ddifetha . . . .**
**hyfrydwch natur.**
**Wylodd.**

**Gwelodd dduwch yr olew**
**ar wyneb y dŵr,**
**ac adenydd marw'r wylan**
**Yn falwen farw**
**seimlyd . . . ddu,**
**a'r pysgod oll wedi eu llarpio**
**gan y gwenwyn.**

**Blasodd ei ddeigryn . . .**
**'Roedd hwn yn bur . . .**
**yn hallt . . .**
**fel y môr gynt,**
**yn ei atgoffa**
**o natur cyn i ddyn ei lygru.**

**Trodd ymaith yn drist.**
**Mae ôl ein Duw ar ddagrau**
**A marc ein mwy ar y môr.**

*Anwen Jones.*

# LLYFRAU

CYSTADLEUAETH ANFERTH Y LLEWOD

**Mae dau lyfr arall yng nghyfres y Llewod newydd weld golau dydd. Dyma rifau 13 ac 14, sef Y Llewod yn Codi Angor a'r Llewod yn y Steddfod.**

Chwi blant ardal *Eco'r Wyddfa* os nad ydych wedi ymuno â Chlwb y Llewod eisoes – ewch ati yn ddiymdroi. Gofynnwch i'ch rhieni, swniwch ar eich athrawon tan y cewch chi fod yn aelodau. Wyddoch chi fod gan y Clwb gystadleuaeth anferth eleni eto ac mae 4 gwobr iddi. 4 gwobr o fordaith i Bremen a Hamburg ar fwrdd y llong Prins Hamlet (trwy garedigrwydd mawr Prins Ferries Cyf.) gan aros noson ym Mremen i weld y Ffair Anferthol Glan Gaea yn ystod tymor yr Hydref 1978. Bydd yr enillwyr yn mynd yng nghwmni ac yng ngofal aelodau o'r Cyngor llyfrau, Y Lolfa a Dafydd Parri ei hun.

Beth ydi'r gystadleuaeth?

**Gwneud llun gwreiddiol yn darlunio unrhyw ran o lyfrau 13 a 14 yng nghyfres y Llewod.** Felly ewch ati i brynu'r ddau lyfr, a da chi blant – ymunwch â'r Clwb.


**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
*PEN CIGYDD Y FRO!*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!**



MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans


# GWEITHG
# YN LL



*Dosbarth Dechrau yr Urdd yn Llanrug. Mrs. L*
*Rhianfa ar y chwith. Llun trwy garedigrwydd Mrs*



*Grŵp Aelwyd yr Urdd Llanrug tua 1926 yn perf*
*Mrs. H. Owen, Isallt, Pontrhythallt.*



*Criw a enillodd sawl gwobr mewn cystadlaetha*
*perfformio 'Y Groes Goch'. Mrs. H. R. Owen oe*
*eto. Y llun trwy gare*



*Yr un athrawes eto wedi dysgu'r grŵp uchod* *eisteddfodau lleol.* **Ymdrech un pentref ac un w**
**cymaint heddiw.**

AREDDAU
ANRUG



ura Grace Owen ar y dde, Mr. Owen Thomas,
Jones, Angorfa, Pontrhythallt.



ormio'r 'Sipsiwn'. Yr athrawes oedd y ddiweddar
Llun: Mrs. J.M.Jones.



cân actol tua 1920 oedd y merched uchod, yn
dd y gyfeilyddes a'r athrawes oedd Mrs. H. Owen
digrwydd Mrs. S.E.Thomas, Min y Rhos, Llanrug



berfformio 'Fflat Huw Puw' i gystadlu mewn
aig. Byddai'n anodd cael yr holl fro i gyflawni

# DIWEDD CYMDEITHAS Y DDAFAD WYLLT

gan

J. WYN OWEN, LLANRUG (Ysgrifennydd)

**AR Y dydd olaf o'r flwyddyn 1977, wedi bron i 27ain o flynyddoedd, daethpwyd â Chymdeithas Cronfa'r Ddafad Wyllt i ben. Bu y meddyg Mr. O.D. Griffiths farw. Gadawyd y Gymdeithas yn agored, er na chasglwyd yr un geiniog er marw y meddyg; gadawyd popeth fel yr oedd gyda'r gobaith y byddai i rywun o'r teulu gymryd trosodd.**

Gŵr rhadlon braf, a diddan ei sgwrs ydoedd y diweddar Mr. O.D. Griffith, a phleser a fyddai ymweld ag ef unwaith y flwyddyn ar ran y pwyllgor.

Erys dau sylw o'i eiddo yn fyw iawn yn fy nghof, sef mai'r gyfrinach i gyd ydoedd 'nabod y "Ddafad", a'r sylw arall oedd fy mod wedi sathru dan droed ran o'r feddyginiaeth ar fy ffordd i'w gartref yn y Rhiw. Ymwelodd nifer o'r aelodau â'r meddyg, yn y blynyddoedd cynnar i Bwllheli ac yn ddiweddarach i'w gartref yn y Rhiw, a chael ganddo feddyginiaeth lwyr.

Sefydlwyd y Gymdeithas yn y flwyddyn 1950, yn union wedi dyfod 'Cronfa'r Ysbytai' i ben. Cododd y syniad o Gronfa'r Ddafad Wyllt yng nghaban Ponc Isaf y Braich, un o'r cabanod yn Chwarel Dinorwig, mewn canlyniad i adroddiad a gyflwynwyd i'r caban gan y diweddar J.H. Williams, Tan-y-Foel, Deiniolen. 'Roedd Mr. Williams yn gynrychiolydd ar bwyllgor cyffredinol Cronfa'r Ysbytai, ac mewn pwyllgor a gynhaliwyd ym Mrynrefail ar Ragfyr 16, 1949, hysbyswyd fod Cronfa'r Ysbytai yn dirwyn i ben, gan fod y Wladwriaeth Les yn mynd i weithredu yr hyn yr oedd Cronfa'r Ysbytai yn sefyll drosto. Wedi gwrando a chael trafodaeth ar adroddiad J.H. Williams penderfynwyd anfon cylchlythyr i holl Bonciau'r Chwarel i egluro'r sefyllfa, ac iddynt ethol dau gynrychiolydd i gyfarfod yn Llanrug a thrwy wneud hynny, cael barn y Ponciau ar y mater. Ar Fehefin 30, 1950 cafwyd cyfarfyddiad yn Llanrug a chynrychiolaeth teilwng wedi dod ynghyd, ac yn y cyfarfod hwn penderfynwyd yn gyntaf i bob cynrychiolydd ddwyn adroddiad o weithgareddau y cyfarfod i'r Ponciau, ac yn ail penderfynu mewn egwyddor sefydlu Cymdeithas Cronfa'r Ddafad Wyllt.

Ar Orffennaf 28, 1950, galwyd cyfarfyddiad drachefn, ac yn hwn rhoddwyd cyfle i bob cynrychiolydd gyflwyno adroddiad o'r Ponciau 'roeddynt hwy yn eu cynrychioli, a phob un ohonynt ag adroddiad ffafriol; yna symudwyd ymlaen yn ffurfiol i sefydlu Cronfa'r Ddafad Wyllt, ac ethol un person o bob adran o'r Chwarel i gynrychioli ar y Pwyllgor. Etholwyd y brodyr a ganlyn yn swyddogion, ac hefyd dewiswyd hwy yn ymddiriedolwyr:

**Llywydd: Mr. Robert Williams, 7 New Street Cwm-y-glo; Islywydd: Mr. Alun Williams, California Terrace, Clwt-y-bont; Trysorydd: Mr. Owen Thomas, Bryniau Fawnog, Llanrug; Ysgrifennydd: Mr. J.H. Williams Tan-y-Foel, Deiniolen.**

Penderfynwyd ar daliad o swllt yr aelod yn cynnwys gŵr a gwraig a phlant i fyny i ddeunaw oed. Yn ddiweddarach penderfynwyd ar swllt o flaendal, a dim yn aelod am chwe mis.

Perthyna i Gronfa'r Ysbytai ganghennau ar wahân i'r Chwarel, sef trwy eglwysi, ac ardaloedd a gwahoddwyd hwythau i ymuno yn y Gronfa Newydd. Fel yna y cychwynnodd Cronfa y Ddafad Wyllt, ac aeth ymlaen o nerth i nerth, hyd yn oed i lawr i Dde Cymru.

Pan gaewyd Chwarel Dinorwig, bu i'r rhai oedd yn rhoddi eu cyfraniad ym mhonc y Chwarel ymuno â changhennau yr eglwysi, ac eraill â changhennau oedd yn eu hardal. 'Roedd 36 o ganghennau o dan yr eglwysi, saith o ganghennau mewn ardaloedd. Yr oedd nifer yr aelodau yn 1951 fel a ganlyn: o Chwarel Dinorwig: 1,206; o'r eglwysi a'r canghennau: 767; cyfanswm: 1,973 — a pharhau i gynyddu a wnaeth yr aelodaeth, rhai yn mynd a rhai yn dod.

Bu newid o dro i dro yn hanes y llywydd. Yn ystod y blynyddoedd gweithredodd y brodyr a ganlyn yn eu tro: Robert Williams Cwm-y-glo; Alun Williams, Clwt-y-bont; J.T. Davies, Rhiwlas; Gwilym Evans, Cwm-y-glo; J. Wyn Owen, Llanrug; Edward Morris, Llanrug; W.J. Evans, Deiniolen a R.H. Roberts, Rhiwlas. Trysorydd cyntaf y gangen oedd y diweddar Owen Thomas, Bryniau Fawnog, Llanrug. Yn ei ddilyn: Mr. Iorwerth Morris, Llanfairfechan ac yna Mr. Gwilym Evans, Cwm-y-glo. Dau ysgrifennydd a fu sef y diweddar Mr. J.H. Williams, Deiniolen a roddodd wasanaeth trylwyr i'r gymdeithas am un mlynedd ar bymtheg, a phan dorrodd ei iechyd, fe'm dewiswyd innau fel olynydd iddo, a rhaid arnaf gydnabod mai mynd i mewn i lafur J.H.a wneuthum i. Nid yn fuan y gallaf anghofio y noson yr aeth y trysorydd, Mr. Gwilym Evans, a minnau ar gais J.H. Williams, i Dan-y-Foel i ymofyn ei lyfrau. Dyna'r noson a brofodd i ni ein dau beth a olygai Cronfa'r Ddafad Wyllt i J.H. Williams.

Ysgrifennaf yr ychydig sylwadau yma ar gais y pwyllgor i ddau bwrpas. Yn gyntaf i hysbysu yr aelodau bod Cronfa'r Ddafad Wyllt wedi ei dirwyn i ben, ac yn ail i ddiolch i'r casglyddion a ofalodd am gasglu'r cyfraniadau yn brydlon o flwyddyn i flwyddyn. Ym mhonciau'r Chwarel, a'r canghennau, ac i'r holl aelodau a gefnogodd y mudiad. Hoffwn innau ychwanegu drwy ddiolch i'r pwyllgor, sydd yn rhy niferus i mi eu henwi.

Er darfod o'r Gymdeithas, fe erys atgof melys am y meddyg Mr. O.D. Griffith a'i sirioldeb, am y Sefydliad ei hunan, sef Cymdeithas y Ddafad Wyllt ac am y nosweithiau'r pwyllgora yng nghwmni ein gilydd yn trin a thrafod sefyllfa a dyfodd yn Gymdeithas y Ddafad Wyllt.

Yn y Banc gan y Trysorydd mae £100 o arian a phenderfynodd y pwyllgor eu trosglwyddo i'r ymgyrch rhag Canser a throsglwyddo'r llyfrau i'w diogelu yn Swyddfa Archifydd y Sir.


## TŶ AR WERTH

Ym mhentref Llandwrog. Tŷ mewn rhes o dri yn cynnwys :

Cyntedd, Cegin, Stafell Fyw, Parlwr / Stafell Fwyta, Stafell 'Molchi, Ogof Ddillad, 3 llofft, Gardd, Garej a Sied yn un, Cwt Glo.

*Ffôn: Llanwnda 830182*


## CYSTADLEUAETH Y LLYTHYREN 'D'

Daeth 30 cynnig i law. Cystadleuaeth dda ond trueni fod rhai wedi arfer y llythyren 'DD'. Gan mai cystadleuaeth llythyren 'D' oedd hon mae arnaf ofn eu bod hwy allan o'r gystadleuaeth. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth. Dyma'r llinell orau:

**Dychwelodd dau darw du Devi Davies, Derwen Deg, drachefn dros dir Dafydd Daniels, Dolydd, dan droedio drwy datws diweddar Dai.**

*Mrs. Megan Jones, Dôl Peris, Llanberis* yw'r awdur. Mae gwobr o £1 ar ei ffordd.

*E.O.Thomas.*

# CWM Y GLO

**PRIODAS** — Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Mr. a Mrs. Len Pritchard, 6 Dolafon ar achlysur eu priodas.

**PÊL-DROED** — Balch ydym o weld tîm pêl-droed cyntaf erioed y Cwm yn dechrau chwarae yn y Gynghrair Iau. Dymuna'r pwyllgor a'r hyfforddwr, Mr. Gwilym Williams, ddiolch i'r pentrefwyr am eu cyfraniad hael tuag at bwrcasu dillad addas iddynt a hefyd i'r rhai sy'n trefnu a chefnogi'r raffl er cael arian i'r gronfa. Ydach chi wedi gweld y tîm yn eu togs newydd? Edrychant yn hynod ddeniadol yn eu glas a gwyn lliwgar. Er fod gemau bore Sadwrn ar amser anhwylus i lawer, cofiwch eu cefnogi pan fedrwch.

**DATHLU GŴYL DEWI** — Dathlwyd Gŵyl Dewi yn yr ysgol gyda noson goffi a chyngerdd dan nawdd Cymdeithas Rieni ac Athrawon. Cymerwyd rhan gan y plant, yn cynnwys y babanod a phlant Brynrefail a chwm-y-glo. Gyda'r lle dan ei sang, cafwyd cyngerdd ardderchog yn llawn amrywiaeth. Hawdd canfod a gwerthfawrogi yr ymdrech arbennig a wnaed gan yr athrawon i ddysgu plant mor ifanc i gyrraedd safon mor uchel. Mwynhawyd yn fawr gyfraniad pellach Mr. Ken Morris, un o'r athrawon, sef ei ddatganiad ar y delyn a'r piano.

Llywydd y noson oedd Mr. Llew Hughes (yn absenoldeb y Prifathro) ac yn ei anerchiad mynegodd ei werthfawrogiad o'r gwaith rhagorol a wnaed gan bawb, a'r pleser a deimlai ar Ŵyl Dewi o glywed Cymraeg graenus y plant. Dymuna'r Gymdeithas ddiolch am y gefnogaeth; dymunwn ninnau'r cyhoedd ddiolch am y wledd a gawsom. Efallai mai'r pleser pennaf oedd gweld afiaith a brwdfrydedd y perfformwyr bychain. Enillwyr y raffl oedd Mrs. M. Williams, Bryn, Cwm-y-glo a Mr. Wager, Llythyrdy, Brynrefail

**GYRFA CHWIST** — Cynhaliwyd dwy yrfa Chwist yn ddiweddar er budd Eisteddfod '79. Arferid cynnal gyrfa yn rheolaidd yn yr hen neuadd flynyddoedd a fu, ac mae rhai ohonom yn ailddechrau cael blas ar y cardiau. Diolch yn gynnes i'r pentrefi cyfagos am ein cefnogi.

**MERCHED Y WAWR** — Ar y 15fed o Fawrth dathlodd Merched y Wawr Ŵyl Dewi eleni gyda rhai gwesteion. Wedi swper o fwyd cartre' o naws Gymreig cafwyd cyngerdd wedi ei drefnu a'i gysylltu gan Miss Mat Pritchard, un o'r aelodau. Benthyciodd hi ymadrodd syml Llwyd o'r Bryn, 'Y Pethe' fel teitl, a chafwyd amrywiaeth dda o ddarlleniadau, adroddiadau dramatig, alawon gwerin, unawdau a deialog o waith Daniel Owen, pethau y bu mynd mawr arnynt yn yr hen eisteddfodau a chymdeithasau llenyddol a chyngherddau yn y gorffennol. 'Roedd y canu yng ngofal medrus Mrs. Lowri Prys Williams, a bu cyfraniad cerddorol a chwmni hapus Mrs. Menna Williams o'r Waunfawr yn gaffaeliad mawr. O gofio mai cangen fechan, o rhyw ugain aelod, sydd yma, credwn i'r noson fod yn ddifyr a llwyddiannus a gwerthfawrogwn yn fawr fod rhai arweinyddion da yn ein plith. Gobeithio i'r gwesteion fwynhau'r 'brethyn cartre'.

Derbyniwyd y canlynol gan un o'r gwesteion: Llongyfarchiadau i Ferched y Wawr Cwm-y-glo am ddathlu Gŵyl Dewi mewn ffordd mor hynod o greadigol. Ar ôl mwynhau llond bwrdd o ddanteithion cartref, 'roedd gan y merched wledd arall ar ein cyfer ni'r gwesteion. Cawsom eitemau gwefreiddiol o adrodd, canu ac actio yn null dramatig yr oes o'r blaen, a'r cyfan wedi eu plethu'n gywrain i greu rhaglen wych o ddifyrrwch hwyliog. Ardderchog! Diolch yn fawr.

**UNDEB Y MAMAU**— Y Rheithor weinyddai yn Offeren y Garawys i aelodau Undeb y Mamau yn ddiweddar. Yr organyddes oedd Miss C. Hughes. Mrs. D.G. Williams a lywyddai dros y cyfarfod busnes oedd yn canlyn yr yr Ysgol Gynradd. Darparwyd te gan Mrs. R.A. Roberts, 1 Bryn Gro a Mrs. H. Williams, Nant Forgan.

**TÂN** — Drwg oedd gennym glywed am y tân a fu yng nghartref Mr. a Mrs. Sinclair, 8 Dolafon. Deallwn iddynt golli llawer iawn o'u dodref a'u dillad a phethau o werth sentimental.

**MEWN YSBYTY** — Deallwn mai mewn Ysbyty ym Mangor y mae Mr. T. Owen, 3 Dolafon yn dioddef oddi wrth anhwylder y galon. Da yw deall ei fod yn well. Deallwn mai difrifol wael ydyw Miss E.G. Morris, Bron Eryri hefyd a gobeithiwn gael gwell newydd amdani cyn hir.

**CARNIFAL** — Nos Iau yr 22ain o Fawrth cynhaliwyd pwyllgor, ynghyd â'r aelodau newydd i ddarparu gweithgareddau Carnifal Cwm-y-glo.

Penderfynwyd fod Carnifal i fod, ac fe fydd y gweithgareddau yn ystod yr wythnos 16—22 Gorffennaf gyda'r Carnifal ar Sadwrn y 22ain.

Ar ran y Clwb Ieuenctid, ac hefyd holl drigolion Cwm-y-glo, manteisiaf ar y cyfle i ddatgan diolch i holl aelodau pwyllgor y Cae Chwarae a fu'n gweithio mor gyson yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

Da gweld Cae Chwarae yn y pentref, ac hefyd, y ffaith fod Canolfan i ddod yn y dyfodol agos fel ffrwyth bywiol o'u hymdrechion.

Yn gywir,
Dafydd Price.

## YSGOL DINORWIG YM 1911




*Dyma lun o ddosbarth babanod Ysgol Dinorwig tua 1911. Fel y gwelwch mae 39 o blant — Cymry uniaith — ynddo. A gallaf yn hawdd feddwl am rhyw ddeg arall a ddylasai fod ynddo.*

*'Roedd yno bump o athrawon y pryd hynny. Miss Mary Jones, hefo'r babanod, Miss Hannah L. Jones yn nosbarth 1, ei chwaer Miss Dora A. Jones hefo Dosbarth dau a thri. Mr. John Ffowc Jones, hefo'r pedwerydd dosbarth (ymfudodd i'r America a bu yn olygydd y* **Drych** *am flynyddoedd), a'r prifathro Mr. W.J. Williams hefo dosbarth pump a chwech.*

*Dyma enwau'r plant yn y llun:*

*Rhes ol: William John Parry; Derlwyn Jones; Dorothy May Griffith; Mary Morris; William Jones; Annie Edwards; Mary Ffowc Jones; Maggie Williams; Huahie Jones; Hugh Roberts (tad Arwyn) a Miss Mary Jones, Congl Mynydd.*

*Ail res: Salome Jones, Gwilym Hughes, Mai Parry; Robert Ifor Hughes, Jemmie Jones, John A. Jones, Jackie Jones, Gwyn Jones a ? Jones (wedi anghofio ei henw, ond chwaer Gwilym Emrys sydd yn y rheng gyntaf ydoedd.*

*Y drydydd res: Robert Rolant Jones, Edwin Thomas, Dorothy Hughes, Meriel a Valmai Williams (merched y prifathro); Nellie Hughes; Sally Hghes; Nel Myfanwy Parry; Robert C. Parry; John Thomas.*

*Rhes flaen: Harry Thomas; Owen Thomas; David Evans; Gwilym Emrys Jones; Ellis Parry; Ifan Thomas; Robert Morris; Robert Jones (y pysgotwr); Herbert Thomas a Thomas Parry.*

*Gadawodd tri ohonynt ni yn ystod y misoedd diwethaf — sef Robert Jones y pysgotwr 'rydych wedi ei goffau mor dda. Robert Ifor Hughes a fu am flynyddoedd yn athro Ysgol Segontiwm a Thomas Parry*

# BRYN REFAIL

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL** — Daeth tymor presennol y Gymdeithas i ben nos Iau, Mawrth 2il, pryd y cafwyd swper i ddathlu Gŵyl Dewi ym Mhlas Maenan, Llanrwst. Y wraig wadd oedd Mrs. Eigra Lewis Roberts, Dolwyddelan. Llywyddwyd y noson gan Mr. D.G. Ellis, Gweledfa.

**PROFEDIGAETH** — Braw i'r pentref fu deall am farwolaeth sydyn Mrs. Sydney Jones, 11 Trem Eilian ddydd Iau, Mawrth 9ed. Meddai ar gymeriad hoffus a'i chyfraniad bob amser yn siriol a llawn hiwmor. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod Mr. Dennis M. Jones, y plant a'r perthnasau oll yn eu profedigaeth.

**CLWB Y MAMAU** — Cyfarfu'r Clwb i gael noson o 'Gadw'n Heini' a 'Yoga' dan gyfarwyddyd Mrs. Cohen, Madog Parc. Trefnwyd paned gan Mrs. Moira Ellis a Mrs. Jacqueline Jones. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs. Shirley Roberts, gan Mrs. Willis, Llwyn Madog. Trefnir Ffair Wanwyn ar gyfer nos Wener, Mawrth 31ain, ac agorir y noson gan Mrs. J.C. Williams, Llanrug — Cyn-ymwelydd iechyd. Bydd yr elw at Gronfa Leol Eisteddfod Caernarfon 1979, ac yn ystod y noson hefyd fe dynnir enwau enillwyr raffl mis Mawrth.

**CLWB PEDWAR UGAIN** — Enillwyr y mis diwethaf: 25.2.78: 1. A. Jones, 5 Trem Eilian; 2. B. Hetherly, Bryn Madog; 3. H. Evans, Min y Don. 4.3.78 1. D. Wager, Llythyrdy; 2. H. Walton, Rhydau Duon; 3. B. Jones, 11 Trem Eilian; 11,3,78: 1. G. Williams, Caernarfon; 2. A. Jones, 1 Trem Eilian; 3. D. Owen, Tros yr Afon; 18.3.78: 1. S. Williams, Bryn Hyfryd; 2. J. Roberts, Penllyn; 3. J.S. Williams, Bryn Hyfryd.

**AR Y TELEDU** — Llongyfarchwn Mrs. Eirlys Williams a Mrs. Euronwy Roberts ar eu hymddangosiad ar raglen i ddathlu Gŵyl Dewi ar y teledu yng nghwmni Hywel Gwynfryn. Mae'r ddwy yn aelodau o Barti Glynrhonwy.

**GŴYL Y GROGLITH** — Dathlwyd yr Wyl yng Nghapel M.C. Brynrefail fel y mae'n arferiad ers dros chwarter canrif bellach, gyda'r Cyfarfod Pregethu Blynyddol. Y cennad gwadd y flwyddyn hon oedd y Parch. Gwilym I. Davies, B.A., B.D., Llanrwst. Llywyddwyd y cyfarfodydd gan Mr. Bertie Ll. Roberts a'r organyddion oedd Miss Mair Wyn Evans a Mrs. L.P. Williams.

**LLONGYFARCHIADAU** — i Miss Gwyneth Green, merch Mr. a Mrs. Bertie Roberts, Llwyncoed Bach, Penllyn a Mr. Noel Thomas mab Mr. a Mrs. Elwyn Thomas, 29 Llwyn Beuno, Bontnewydd, ar achlysur eu dyweddiad ar Sadwrn y Pasg.

**CLWB YR HENOED** — Gwedi seibiant am rai wythnosau ailagorwyd y Clwb gyda Swper Gŵyl Dewi. Cafwyd adroddiad o'r sefyllfa ariannol gan Mrs. Eifiona Jones. Nos Fawrth 21ain o Fawrth cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr. Meredydd Foulkes, Bryn Derw a roddodd hanes ei gyfnod ar y môr. Mr. Griffith Pritchard oedd yn llywyddu a Mrs. Jennie Roberts, Glandwr a Mrs. Mair Wyn Williams, 3 Tai Orwig oedd yn gyfrifol am y te.

GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo



Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

# DEINIOLEN

## DIWRNOD AGOR Y LLYFRGELL



*Gyrrwyd dau o'r lluniau yma i'r Eco , un gan Mrs. K. Hughes, 1 Rhes Victoria, Deiniolen a'r llall gan Mrs. H. Vaughan Evans, 3 Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont. Llawer o ddiolch i chwi'ch dwy.*

**DIOLCH** – Dymuna Siân Wyn Williams, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen ddiolch o galon i'w pherthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati pan yn yr ysbyty, a hefyd i staff Ward Ogwen, Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

**CROESO'N ÔL** – Croeso yn ôl i'r hen ardal i Gwyneth Ann Lewis, gynt o Fryn Sardis, Dinorwig, ac sydd yn awr yn byw yn Awstralia. Fe ymfudodd y teulu, sef Harri Trevor ac Elizabeth a'r plant i fyw i Awstralia yn 1969 pan oedd Gwyneth yn bedair ar ddeg oed a dyma'r tro cyntaf i un ohonynt ddychwelyd yn ôl i'r hen ardal.

Mae'r teulu yn derbyn yr Eco bob mis ac yn cael mwynhad mawr o'i ddarllen.

Gyda'i nain, Mrs. Katie Lewis, 7 Maes Gwylfa, Deiniolen y mae Gwyneth yn treulio ei chwech wythnos o wyliau.

*58 Wellington Rd.,*
*Hatch End,*
*Pinner,*
*Middlesex.*

*Annwyl Olygydd,*

*Teimlaf ei fod yn ddyletswydd arnaf fel un o hen blant Deiniolen sydd yn awr yn byw yn Llundain longyfarch parti Cân Actol Gwaun Gynfi ar eu perfformiad ardderchog yng nghyngerdd Dydd Gŵyl Dewi yn yr Albert Hall.*

*Cawsant brofiad bythgofiadwy yn ieuanc o gael perfformio ar lwyfan mor enwog, a daethant â chlod ag anrhydedd i'r ysgol ac i'r ardal i gyd.*

*Balch iawn oeddwn o gael cwrdd â chymaint o hen gyfeillion oedd wedi dod i lawr i Lundain i gefnogi'r plant.*

*Edrychaf ymlaen bob mis am dderbyn yr Eco. Mae fy modryb sef Mrs. L.M. Williams, 8 Deiniol Road, Deiniolen yn garedig iawn yn ei anfon imi. Diolch yn fawr am bapur mor ddiddorol.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Peggy Anastrassopoulos*

# TAN-Y-COED

**LLONGYFARCHIADAU** – i Mrs. E. Shilton, Tan y Coed Cottage ar ddathlu ei phen-blwydd yn 92 mlwydd oed ar Fawrth 11eg.

Hefyd i Mr a Mrs R. Arwel Jones ar eu priodas. Bwriada Mr a Mrs Jones gartrefu yn y Bontnewydd. Pob bendith iddynt yn eu cartref newydd.

**GWELLHAD BUAN** – Croeso adref a dymuniadau gorau am adferiad buan i Mr. William Humphreys, Clawdd Llwyd, a fu yn Ysbyty Môn ac Arfon. Da deall bod Mr. Humphreys yn gwella

**'TOCYN CHWECH'** – Perthyn Dylan Bryn Jones, 3 Tai Tan y Coed i Grwp Roc Cymraeg o'r enw 'Tocyn Chwech'. Gyda Dylan yn y grŵp y mae Aled (Bas), Meic (Gitar Flaen), Margaret, Ann a Rhian (Lleisiau). Gyda'r drymiau y mae Dylan. Eisoes bu'r grŵp yn perfformio ym Mhwllheli, Llangefni, Dinorwig, Rhyl, Caernarfon a Llanfaglan. Y maent ar hyn o bryd yn gwneud record, eu cyntaf (E.P) gyda Sain. Byddant yn ymddangos ar 'Twndish' ar yr ail o Ebrill. Dymunwn fel ardal bob llwyddiant iddynt.

# YM MYD MODURO

Mae'n syndod fod cymaint o fodurwyr yn dal i gredu fod angen gwagio'r gwrth-rewydd (anti-freeze) o'r car, wedi i'r tywydd gynhesu.

Mewn gwirionedd mae'n llesol i chwi ei adael yn y modur gydol y flwyddyn, gan fod y gwrth-rewydd yn cynnwys cemegau (chemical) sy'n helpu i atal rhwd ffurfio yn eich system oeri. Pe digwydd i chwi trwy ryw anffawd golli eich gwrth-rewydd, doeth fyddai i chwi roi gwahanddwr rhwd (rust inhibitor) yn eich radiator. Amhosibl gorbwysleisio pwysigrwydd gwneud hyn mewn peiriannau aliwminiwm

# BETHEL

**LLONGYFARCHIADAU** – i Mr. a Mrs D.C. Williams (Mona a Dafydd) 9 Bro Rhos ar ddathlu eu priodas arian ar Fawrth 21ain, hefyd i Dylan, eu mab ar ei ddyweddïad â Miss Mona Jean Lewis, Cilan, Llanberis.

I Mr. a Mrs. Robert Morgan, 8 Cremlyn fydd yn dathlu eu priodas arian ar Ebrill 4ydd.

I Mr. a Mrs. J. Owen, 40 Bro Rhos ar enedigaeth efeilliaid, dwy ferch fach.

I Mr. a Mrs. Warrington, Wern, ar enedigaeth bachgen bach.

**CYDYMDEIMLAD** – Mae'n cydymdeimlad a theulu'r diweddar Mr. John B. Farrar, Orchard End yn eu profedigaeth.

**CLWB 100** – Enillwyr y Clwb 100 a sefydlwyd i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon oedd: 1: Mr. J.O. Williams, Parc y Wern (£20); 2: Mr. Maldwyn Hughes, Tyn Llan Uchaf, Llanddeiniolen (£10); 3: Mr. Gwilym Williams, 2 Bro Wyled, Rhostryfan (£5).

Fe dynnwyd y gwobrau y mis hwn yng nghyfarfod Sefydliad y Merched yn yr Ysgol. Mae'r aelodaeth erbyn hyn yn 115 ond mae croeso i 'chwaneg ymaelodi eto drwy gysylltu â Mr. Seiriol Owen neu Mr. Dafydd Williams.

**YR URDD** – Mae'n llongyfarchiadau calonnog i holl aelodau'r Urdd a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch a'r Eisteddfod Sir yn ystod y mis.

Yn yr Eisteddfod Gylch cafodd Meinir Duncey Williams gyntaf ar adrodd dan 9 oed ac ail ar yr unawd Cerdd Dant, 'roedd Manon Duncey Williams yn gyntaf yn yr unawd dan 12 oed. Daeth y Parti Cyd Adrodd dan 12 oed yn drydydd a'r Parti Cerdd Dant dan 15 oed yn gyntaf.

Gwnaeth Meinir, Manon a'r Parti Cerdd Dant yn dda iawn yn yr Eisteddfod Sir a daeth Meinir yn gyntaf am adrodd dan 9. Pob lwc iddi yn awr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelwedd.

Yn ystod y mis bu'r arlunydd o Gaernarfon, Mr. J.P. Williams yn diddori'r plant a chafwyd noson lwyddiannus iawn.

Mae tymor yr Urdd wedi gorffen er Mawrth 17, 'rwy'n siwr fod pawb yn y pentref yn diolch i'r rhai fu mor ffyddlon yn mynd i'r Neuadd at y plant drwy'r Gaeaf.

**PLAID CYMRU** – Fe gynhelir Gyrfa Chwist dan nawdd y gangen leol o Blaid Cymru yn y Neuadd nos Fercher Ebrill 19 am 7.30. Croeso cynnes i bawb, yn enwedig i bobl sydd newydd ddod i fyw i'r pentref. Mae Gyrfa Chwist yn gyfle gwych i ddod i nabod pobl y pentref.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Barti Côr Adrodd y Rhos ar gael y wobr gyntaf yn Eisteddfod y Groeslon ar Fawrth 18 a hefyd yn Eisteddfod y Bontnewydd nos Wener y Groglith.

**CLWB Y RHOS** – Bydd Clwb y Rhos yn cynnal eu cinio blynyddol ym Mhlas Tan Dinas nos Sadwrn, Ebrill 22. Yn eu cyfarfod nos Fercher, Mawrth 15 dewiswyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn nesaf: Cadeirydd: Mr. Ieuan Williams, Llain yr Ardd, Is-gadeirydd: Mr. Iorwerth Hughes, Llys Gwynedd; Trysorydd: Mr. Seiriol Owen, Crud yr Awel; Ysgrifennydd: Mr. J. Eryl Thomas, Tan y Buarth.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL** – Cafwyd noson lwyddiannus iawn yng nghinio blynyddol y Gymdeithas ym Mhlas Tan Dinas yn ystod y mis. 'Roedd Bil ac Ann Evans Gorffwysfa wedi dod draw i ddiddori'r cwmni.

**DIOLCH** – Dymuna Mona a Dafydd, 9 Bro Rhos ddiolch yn fawr i 'w perthnasau a chyfeillion am yr anrhegion gwerthfawr a'r cardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Arian.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Helen W. Jones, Glangors ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 18 oed ddydd Sul Ebrill 2il.


**E.W.&M.WILLIAMS**



Y BECWS
DEINIOLEN
FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

**DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN**

**Simneiau glân am bris rhesymol gan**

**G. LLOYD**



*Defnyddir peiriant sugno i lanhau*

**4 PLAS TIRION TERRACE, LLANRUG**

*Ffôn: Caernarfon 4781*

## HYNT A HELYNTION HEN FYSUS BACH Y WLAD

### CYNLLUN CREU GWAITH:
**Arolwg ar Gludiant Gwledig**

Mae Comisiwn Gwasanaethau'r Gweithwyr wedi cymeradwyo Cynllun Creu Gwaith a gefnogwyd gan Gyngor Sir Gwynedd i archwilio nifer o broblemau sy'n ymwneud â chludiant gwledig.

Bydd tîm bychan o bedwar gweithiwr lleol, a fu'n ddiwaith, yn ddynion a merched, yn treulio deng mis i edrych ar ardaloedd detholedig yng Ngwynedd. Eu tasg fydd darganfod i ba raddau y mae'r gwasanaethau bysus presennol yn cwrdd mewn gwirionedd ag anghenion y bobl leol gan argymell newidiadau yn yr amserlenni a'r gwasanaethau petai rhaid.

Bydd y tîm hefyd yn archwilio effaith yr ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a'r arbrofion tocynnau. Yn ystod yr haf ychwanegir pedwar aelod arall at y tîm am gyfnod o chwe mis. Yna cyflogir y tîm i gadw golwg ar wasanaeth bysus llwyddiannus iawn Sherpa'r Wyddfa a fydd yn cael ei ymestyn a'i wella eto yn 1978.

Yn y tîm mae un sydd â gradd Brifysgol, dau athro trwyddedig a gyrrwr bysus gynt, a bydd y rhain yn cyflwyno gwybodaeth werthfawr am y gwasanaethau bysus i dîm bychan y Cyngor Sir sy'n ymwneud â chludiant barhaol i'r cyhoedd. £17,700 fydd cost y cynllun a Chomisiwn Gwasanaethau'r Gweithwyr a fydd yn talu'r swm yma.

### ARBRAWF TOCYNNAU BYSUS RHATACH

Bydd Cyngor Sir Gwynedd yn cefnogi arbrawf yn ystod y ddau fis nesaf er mwyn gweld i ba raddau y bydd tocynnau bysus rhatach yn effeithio ar nifer y teithwyr ar y bysus.

Dywedwyd droeon petai cwmniau bysus yn gostwng prisiau'r tocynnau yna byddent yn colli llai o arian gan y byddai rhagor o bobl yn defnyddio'r bysus. Er hynny, pan aeth Cyngor Sir Clwyd ati i gynnig tocynnau hanner pris mewn arbrawf yn Nhreffynnon ni ddigwyddodd hyn o gwbl. Er y cynnydd o 22% yn nifer y teithwyr bu gostyngiad o 28% yn yr arian a dderbyniwyd ar docynnau.

Gan hynny, rhwng 3Ebrill a 27 Mai mae Cyngor Sir Gwynedd trwy gydweithredu â chwmni bysus Crosville Cyf. am gychwyn ar ei arbrofion ei hun. Ar y gwasanaeth N99 rhwng Bethel a Chaernarfon bydd y tocynnau i'w cael am hanner y pris ar yr adegau tawel.

Os rhoir tocynnau am hanner y pris rhaid dyblu nifer y teithwyr i arbed y cwmni bysus rhag colli rhagor o arian. Rhag ofn i nifer y teithwyr beidio â dyblu mae Cyngor Sir Gwynedd yn barod i dalu hyd at £1,700 i gwrdd ag unrhyw golled yn yr arbrawf y maent yn gofyn amdano.

*Ond at y Bysus Bach go iawn. Dyma lun dwy ohonynt. Y gyntaf yw llun o'r Deimlers fyddai'n cludo pobl a phopeth trwy Gaernarfon a Llanberis, gyda'r brodyr John ac Evan Peris wrth ei hymyl. Tynnwyd y llun yn 1924. Sylwch ar y 'solid tyres'. Yn yr ail lun gwelir Tom Llys Gwynt (conductor) a Will Hughes (gyrrwr) wrth ymyl 'Bobby' tu allan i'r Bull yn Neiniolen. Sylwch ar olwynion hon. Dyma'r tro cyntaf i fws fynd ar olwynion aer. Tynnwyd y llun yn 1926.*







# NANT PERIS

**CYDYMDEIMLAD** – Drwg iawn oedd gennym glywed fod Mr. William John Williams, Tan y Bryn wedi colli ei chwaer yn ystod y mis yma. Derbynied Mr. Williams a'r teulu i gyd ein cydymdeimlad dwysaf â hwy yn eu profedigaeth.

**CRONFA'R EISTEDDFOD** – Diolch i Glwb Ieuenctid y Nant em eu rhodd o £20 i Gronfa Leol yr Eisteddfod. Deallwn hefyd y bydd ei harweinydd, Mr. Irfon Owen yn trefnu taith gerdded yn y dyfodol agos at y Gronfa. Apeliwn am eich cefnogaeth fel ardalwyr i'r cerddwyr.

Diolch hefyd i'r cyfeillion hynny a roddodd gyfraniadau personol yn ystod y mis. Cawsom hefyd noson o adloniant neilltuol o dda yng nghwmni Parti Merched Ifanc Carmel. Diolch iddynt hwythau am eu gwasanaeth ac am y gefnogaeth a gafwyd.

Hyderwn y cawn noson goffi cyn diwedd y mis ac y cawn fynd i Awstralia ac yn ôl yng nghwmni Mr. a Mrs. Owen Humphreys, Gwastadnant. Swm y Gronfa erbyn hyn yw £110.

**ANGLADD** – Ar y 8 o Fawrth rhoddwyd gweddillion y ddiweddar Mrs. Mary W. Humphreys, i orwedd ym mynwent y Nant. Treuliodd Mrs. Humphreys dros drigain mlynedd o'i hoes yn y Nant cyn symud yn ddiweddar i Lanberis. Bu yn eithriadol o ffyddlon i Gapel Rehoboth tra yn ein plith ac eithriad oedd i'w sedd fod yn wag mewn oedfa nac yn yr Ysgol Sul. Roedd ganddi ddiddordeb mawr yng Nghaniadaeth y Cysegr a rhoddodd o'i doniau gydol ei hoes yn y cyfeiriad yma. Credwn y gallwn ddweud yn hollol ddiffuant fod ein diweddar chwaer wedi

'Dysgu'r anthem
Cyn cael telyn yn y côr''

Derbynied y teulu i gyd ein cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth. Gwasanaethwyd yng nghapel Rehoboth ac yn y fynwent gan y Parch. John Owen, B.A., B.D., Rhuthun erbyn hyn, cyn-weinidog Mrs. Humphreys.

**AR GRWYDR** – Yn ôl a ddeallwn dyna yw hanes Mr. Eilian Williams, Pennant. Mae Eilian ar hyn o bryd yn gweithio yn Ffrainc. Ei fwriad yw aros yno am flwyddyn ac yna symud i weld dipyn ar y byd cyn dychwelyd yn ôl i'r hen wlad. Rhwydd hynt Eilian a phob lwc ar dy grwydriadau.

**TE PARTI** – Daeth tymor y Gobeithlu i ben a mwynhaodd y plant eu te parti arferol yn y festri. Diolch yn fawr i'r chwiorydd am ddarparu mor helaeth ar gyfer y plant ac aeth pawb adref wedi eu digoni a mwynhau eu hunain.

**FFARWELIO** – Gyda gofid y deallwn fod teulu Gwyndy yn ein gadael ac yn symud i Lanberis. Bydd yn chwith iawn gennym eu colli o'r Nant, ond yr ydym yn falch o ddeall nad ydynt am dorri eu cysylltiad â Rehoboth lle mae Mr. Arthur Roberts yn flaenor er 1960 ac wedi rhoddi blynyddoedd o wasanaeth clodwiw i Rehoboth. Er mor ddrwg gennym eu colli nid oes gennym ond dymuno'r gorau i Mr. a Mrs. Roberts a Cledwyn yn eu cartref newydd.

Wrth ffarwelio â'r teulu yma credwn ei fod yn deg gofyn y cwestiwn, "Beth sydd yn mynd i ddigwydd i'r Nant?" Mae'r bobl ifanc ers blynyddoedd yn gorfod gadael er mwyn cael gwaith, a bellach dyma'r trydydd teulu i ymadael â'r Nant am nad oes yma ddarpariaeth, fel tai unllawr ar eu cyfer. Buasai dau neu dri o dai felly, fel a geir ym mhob ardal bron, yn ein cadw rhag colli rhai sydd â'u gwreiddiau yn ddwfn yn naear y Nant a'u symud i ardal arall o ganol eu cydnabod a'u cyfeillion. Y mae'r ardal yn prysur golli ei nodweddion a'i Chymreictod drwy'r symud yma. Beth a wneir, neu beth a ellir ei wneud gan Gyngor Arfon yn wyneb sefyllfa fel hyn?

**GWAELEDD** – Drwg iawn gennym am waeledd Mrs. Gwladys Edwards, Tyn Twll gynt, yn ystod y dyddiau yma. Mae Mrs. Edwards yn disgwyl am fynediad i Ysbyty Dewi Sant ac anfonwn ein dymuniadau gorau fel ardal i chwi Mrs. Edwards yn eich gwaeledd.

**LLONGYFARCHION** – yn galonnog iawn Dafydd T. Pritchard ar ddod yn 3ydd yn y Gystadleuaeth Adrodd i'w oed yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanrug yn ddiweddar. Deallwn fod nifer dda o adran Ysgol Dolbadarn wedi gwneud yn dda yn Eisteddfod y Cylch. Daliwch ati a phob llwyddiant i'r dyfodol.

**BEDYDD** – Brynhawn Llun y Pasg cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Peris Sant pryd y gweinyddwyd y Sacrament o Fedydd gan y Parchedig Ganon Alun Jones. Bedyddiwyd mab bychan Mr. a Mrs. John Roberts, Glanrafon gynt. Dymunwn bob bendith i Gareth, ei rieni, a'i frawd a'i chwaer i'r dyfodol.

**CROESO** – cynnes i blant yr ardal a fu adref am seibiant yn ystod y mis a thros wyliau'r Pasg. Er mai oer oedd yr hin mae'r croeso bob amser yn gynnes yn y Nant.

YN EISIAU
**Hen Lyfrau Cymraeg**
Pob peth newydd ar gael fel arfer
LLYFRAU – RECORDIAU – CARDIAU
**SIOP Y PENTAN**
YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

# PENISARWAUN

**CLWB YR HEULWEN** – Cynhaliwyd y Clwb ddydd Mercher 22. Cafwyd sgwrs ddifyr gan Miss Laura Jones, Craig y Dinas am yr hen gymeriadau 'roedd hi yn eu cofio pan oedd yn blentyn. Cydymdeimlwyd â theulu Mrs. Ford, gynt o Fron y Waun, a Mr. W.J. Jones, 13 Bryn Tirion ar golli ei fam yn y De. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs. Humphries, Winllan a Mrs. Ellis, Weirglodd Goch sydd yn yr ysbyty. Ailetholwyd y swyddogion am ddwy flynedd arall. Bydd y cyfarfodydd nesaf ar y pedwerydd DYDD MAWRTH fel o'r blaen.

Croesawyd Mr. Maddocks fel aelod newydd.

**SYMUD TŶ** – Symudodd teulu Shirwyn i'w tŷ newydd. Yr ydym yn dymuno hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

Aeth Mr. a Mrs. Percy D. Williams dros y ffordd o Fryn Tirion i Lys y Gwynt. Gobeithio y bydd dedwyddwch yn eu dilyn nhw.

Daw Mr. Emlyn Jones a'r plant o Fangor i'w hen fro i fyw. Byddant yn dod i fyw i hen gartref Mr. a Mrs. Percy Williams.

**SYMUD I FANGOR** – Bydd Sandra ac Elfyn Jones yn symud o Benisarwaun i Fangor. Pob hapusrwydd iddynt yn eu cartref a bro newydd.

**CROESO** – Croeso i Bet, Robert, Bethan a Shan i Benisarwaun i'n plith. Gobeithio bydd eu harhosiad yma yn un hapus cyn iddynt ddychwelyd i Gaernarfon.

**YN YR YSBYTY** – Gwellhad buan i Mrs. Annie Ellis, Weiglodd Goch a Mrs. S. Humphreys, Y Winllan. Yr ydym ar ddeall bod y ddwy yn yr ysbyty.

**PWYLLGOR LLEOL YR EISTEDDFOD** – Cafwyd noson o yrfa Chwist, lwyddiannus iawn. Diolchiadau i bawb a gymerodd ran yn y noson ond yn arbennig i Mrs. Freda Roberts, Mrs. Eleanor Jones, a Mr. Bryngwyn Griffith. Daeth y noson a £98 o elw tuag at Gronfa'r Eisteddfod.

**SACH LIAIN A LLUDW** – Gadawyd enw y prifathro Mr. Len Jones allan o'r rhestr o gasglwyr arian at yr Eisteddfod Mae'n ddrwg gennym.

**LLONGYFARCHIADAU** i Jean a Gwynfor Roberts, 6 Bryneglwys ar enedigaeth eu trydydd plentyn, a chroeso cynnes i'r bychan.

**YN EISIAU**

Gofalwr i Gapel Croesywaun (MC) Waunfawr, ger Caernarfon, Tŷ ar gael. Manylion pellach oddi wrth *Mr. O.T. Jones, Bryn Gwenallt, Waunfawr, Caernarfon.* Ceisiadau i ddod i law erbyn Ebrill 29.

**DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** – Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ar Fawrth 3ydd i ddathlu Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yng Nghapel Bosra, Penisarwaun.

Bu'r cyfarfod o dan ofal Mrs. K. Williams, 8 Llys y Gwynt a rhoddwyd yr anerchiad gan Mrs. Mary Davies. Mrs. Owen, Minffordd oeddd yn cyfeilio.

Yr oedd amryw o ferched y cylch yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Yn eu plith yr oedd Mrs. Edwin Thomas, Mrs. Eluned Jones, Cae Corniog, Mrs. Jennie Williams, Miss Marian Jones, Miss Bronwen Rees Hughes, Mrs. Eirlys Jones, Mrs. Percy Williams, Mrs. Betty Hughes, Mrs. Edwards, Y Ficerdy, Mrs. Jennie Jones, Mrs. Porter, Mrs. Roberts, Vine Cottage a Mrs. Larsen.

Daeth cynulliad da ynghyd a chafwyd gwasanaeth bendithiol, tawel.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn yr ysgol nos Lun, Mawrth 20. Llywyddwyd gan Mrs. Anne Jones. Croesawyd Mr. Tegid Roberts, Arwel i'n plith a chafwyd noson hynod o ddifyr yn edrych ar sleidiau a dynnwyd gan Mr. Roberts pan oedd ar ei wyliau yn yr Yswisdir a'r Almaen. Yr oeddynt yn hynod o ddiddorol. Diolchwyd i Mr. Roberts gan Mrs. Mary Davies. Darparwyd y te gan Mrs. Elinor Jones a Mrs. Mary Davies, ac enillwyd y raffl gan Mrs. Percy Williams.

**BABAN NEWYDD** – Llongyfarchion i Mr. a Mrs. Hughes, Tŷ Newydd ar fod yn daid a nain unwaith eto, – bachgen bach y tro hwn, sef Rheon. Dymuniadau gorau i'r plentyn bach a'i rieni.

E&
E.M.GREEN

SIOP
GRON

PENISARWAUN

Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres

*Dewis rhagorol*
*Croeso cartrefol*

## DYN Â GWELEDIGAETH GANDDO

**Gwelwyd yr hanes a ganlyn yn Llyfr Cofnodion Capel Tan-y-Coed MC. Y cofnodydd oedd y diweddar Mr. William Davies, 4 Tai Bryngwyn.**

Dydd Sul Awst 3 1913 cynhaliwyd Cyfarfod Canu yng Nghapel Tan-y-Coed ar ôl yr Oedfa Pnawn, i'r amcan o ymarfer ar gyfer canu yn angladd Mr. John Hughes, Siop Pant-y-Coed (prif sefydlydd yr Achos yn Nhan-y-Coed). Bu Mr. Hughes farw y diwrnod hwnnw yn 82 mlwydd oed. Meddai'r cofnod:

"Yn lle Saboth ar y ddaear cafodd ddechrau ei Saboth tragwyddol yn y nefoedd."

Claddwyd Mr. Hughes ar Awst 7ed. Cynhaliwyd gwasanaeth yn y capel o dan arweiniad Y Parch. R.T. Williams, B.A., Llanrug.

Dechreuwyd trwy ganu yr emyn adnabyddus "Am graig i adeiladu" Darllenwyd Salm 91 gan y Parch. R.M. Jones, Glasgoed, a gweddiwyd gan y Parch. W.G. Williams, Cwm-y-glo. Ymhellach cafwyd gair gan y Mri. J.O. Hughes, Caehoeden, dros Eglwys Tan-y-Coed, Thomas Parry, Glasfryn dros Ceunant a'r Parch. T.J. Teynon, Cwm-y-glo a T. Gwynedd Roberts Caeathraw.

Dygai yr oll dystiolaeth uchel iddo fel gweithiwr ffyddlon yn y winllan.

I derfynu y gwasanaeth canwyd yr emyn "Derfydd imi deithio'r ddaear."

Cychwynwyd yn awr tua'r gladdfa ym mynwent y plwyf, y cantorion ar y blaen, yna yr elogerbyd a cherbydau eraill, a'r 'dyrfa' yn dilyn.

Ar y ffordd canwyd yr emynau canlynol: "Mae 'nghyfeillion adre'n myned". "Tragwyddoldeb mawr yw d'enw". "O anfeidrol rym y cariad". "Bydd myrdd o ryfeddodau". Darllenwyd rhan o Corinthiad XV gan y Parch. R.T. Williams, B.A. Gweddiwyd gan y Parch. T. Gwynedd Roberts, Caeathraw. Ar lan y bedd anogwyd pobl ieuainc yr ardal i fyw yn debyg iddo.

Nos Iau yng Nghapel Tan-y-Coed traddodwyd pregeth angladdol ar ei ôl gan y Parch. R. Jones (Glan Alaw), Brynrefail. Ei destun oedd adnod 37 yn Salm 37. Anogai bawb i edrych ar, i ystyried, ac i feddwl am gymeriad Mr. Hughes.

Canwyd yr anthem "Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn" a chwaraewyd y "Dead March" yn ystod y gwasanaeth. "Ni bydd eisiau colofn farmor ar ei fedd. Mae Capel Tan-y-Coed yn gofgolofn iddo."

O.N. Yn ei swydd fel Masnachwr ar raddfa eang anfonai Mr. John Hughes am nwyddau at Gyfanwerthwyr yn Lerpwl, a gwnâi hynny bob amser mewn Cymraeg pur. Os jam fyddai arno ei eisiau, "cyfaith" fyddai ei air ef amdano yn ei archeb. Pan ofynnwyd iddo pam y defnyddiai'r Gymraeg ei ateb oedd, "Hwyrach nad oes Gymro yng ngwasanaeth y Cwmni. Os felly rhaid iddynt chwilio am Gymro i ddarllen fy archeb, a dyna gyfle i ryw fachgen o Gymro i gael dringo i fyny."

DYSGWYR: CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

PENWYTHNOS CYMRAEG
12–14.5.78 PEN-Y-WERN 12–14.5.78
*(Welsh Weekend)*

HWYL A SBRI
DEWCH I DDYSGU

HAVE FUN
LEARN WELSH

Manylion:
Details:

Ann C. Uruska
Swyddfa C.Y.I.G.,
5, Maes Albert,
ABERYSTWYTH.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant


Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

*Ffôn: Llanberis 491*

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

# Dwy flynedd i'w cofio

**AT DDARLLENWYR YR ECO**

**Ar ôl dwy flynedd hapus iawn o olygu *Eco'r Wyddfa* hoffwn ddatgan fy mod erbyn hyn wedi ymddiswyddo o'r gwaith, er nad yw hyn yn golygu fy mod yn cefnu ar y papur. Oherwydd fod gwaith golygydd papur bro yn waith eithriadol o drwm penderfynodd y bwrdd golygu rannu'r gwaith allan rhwng tri, a derbyniais y cyfrifoldeb o fod yn olygydd erthyglau a cholofnau.**

Golygydd newyddion cyffredinol o hyn allan fydd **Mr. Twrog Jones** o **Lanrug** a golygydd newyddion pentrefi fydd **Mr. Tony Elliot** o **Benisarwaun** (gweler rhestr swyddi).

Cefais y fraint o gydweithio â Twrog pan oedd yn is-olygydd yr *Eco* y flwyddyn diwethaf ac edrychaf ymlaen i gydweithio ag ef a Tony am sawl blwyddyn eto fel cyd-olygyddion.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i bawb sydd yn ymwneud ag *Eco'r Wyddfa.* Cymerai rifyn cyfan i'w henwi i gyd, yn drefnwyr, swyddogion a phlygwyr, gohebwyr, cysylltwyr a gwerthwyr o ddrws i ddrws. Golyga hyn fod dros 200 o bobl a phlant yn cynorthwyo'r Eco a hyn heb dderbyn dimau am y gwasanaeth. Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i chwi y darllenwyr. Hebddoch chwi ni fyddai pwrpas i'r papur. Gwerthir rhwng 2,500 a 2,600 o'r *Eco* ac amcangyfrifir y darllenir ef gan tua 7,000 i 8,000 o bobl. Os gwyddoch am rai o'ch cwmpas nad ydynt yn derbyn copi o'r Eco ceisiwch eu perswadio. Gwn am lawer sy'n gwrthod ei brynu — a hynny heb iddynt ddarllen gair ohono. Nid yw'r Eco yn bapur unrhyw blaid wleidyddol — a gallaf gyhoeddi hyn heb flewyn ar fy nhafod.

Mae'n warchodwr yr iaith Gymraeg ac yn gyfrwng i roddi ar gof a chadw gyfnodau arbennig o hanes y fro. Mae'n gyfrwng hefyd i hybu diwylliant cefn gwlad ac i roddi cyfle i sawl un i ysgrifennu yn gyhoeddus am y tro cyntaf erioed.

Drwy garedigrwydd gwŷr busnes y fro sydd yn hysbysebu yn yr Eco ac hefyd drwy gyfraniadau haelionus cyfeillion, gallaf gyhoeddi fod yr Eco yn holliach o safbwynt arian. Carwn felly ddiolch i'r hysbysebwyr a'r cyfeillion hyn gan eu sicrhau fod eu cyfraniadau yn gymorth mawr i wynebu costau uchel cyhoeddi papur o'r fath.

Rhaid peidio ag anghofio am y cannoedd o blant y fro sy'n byw mewn gwledydd tramor. Diolch am eich cefnogaeth, byddwn yn falch iawn o glywed oddi wrthych ar unrhyw adeg.

I ddiweddu, hoffwn yn fawr feddwl am *Eco'r Wyddfa* fel symbyliad i ailennyn diddordeb pobl y fro yma mewn llyfrau, papurau a chylchgronau Cymraeg. Oni fyddai'n braf clywed am erthyglau



*ARWEL JONES*
*(Cyn-olygydd Cyffredinol yr Eco*

o'r *Cymro* a'r *Herald Gymraeg* yn cael eu trafod dros gownter y siop siop, ar y stryd, yn y capel a'r dafarn?

Pobl Dyffryn Peris — beth amdani o ddifrif? Beth am yrru archeb wythnosol i'ch siopau am yr *Herald Gymraeg* ac yna *Eco'r Wyddfa* bob mis! Fe wnaech ffafr fawr â'r iaith Gymraeg. Onid yw hyn yn ddyletswydd arnom er mwyn yr iaith, ein bro a'n plant?

# Cymdeithas Eco'r Wyddfa

**Mae llawer wedi dangos diddordeb mawr mewn ffurfio Cymdeithas yn gysylltiedig â'r Eco. Cymdeithas fydd hon i gynorthwyo a chefnogi'r papur o safbwynt ariannol, cymdeithasol a diwylliannol.**

**Bwriedir drwy'r gymdeithas drefnu gweithgareddau megis Cyngherddau, Eisteddfod, Dawnsfeydd ac ati.**

**Os oes unrhyw un â diddordeb cysylltwch ag un o'r golygyddion a nodir ar y tudalen flaen fel y gellir mynd ati i ffurfio pwyllgor. Mae sawl un yn fodlon ymgymeryd â'r trefniadau — ond bydd eich cymorth chi tu cefn iddynt.**

**WYNEBAU O BONTRUG 1950**



*Diolch yn fawr iawn i Mrs. Elizabeth Jones, Fferm Felin Uchaf, Pentir am y llun uchod. Llun a dynnwyd yn 1950 o barti a drefnwyd gan aelodau Sefydliad y Merched, Pontrug i blant yr ardal i ddathlu diwedd yr ail Ryfel. Daeth Mrs. Jones yn ôl i'r ardal ym 1945 gyda'i theulu ar ôl byw am gyfnod yn Lerpwl. Yn ôl Mrs. Jones 'doedd dim prinder bwyd ddiwrnod y parti er gwaethaf caledwch y cyfnod. Cafwyd mabolgampau i'r plant ar ôl y parti ar gae Lôn Glai, cartref Mrs. Jones ar y pryd. Mae merch Mrs. Jones bron o'r golwg ar y dde y llun, gyda'i braich am wddw bachgen bach Tyddyn Hen a gafodd ei losgi ar long yn ddiweddarach. Mae merch Mrs. Jones yn byw ar hyn o bryd yn Kingston, Ontario, a threuliodd Mrs. Jones ei gwyliau Pasg gyda'r teulu yng Nghanada.*

*CROESFFORDD RACA*
*(Parhad o dud. 1)*

iadau gan y Cyghorydd Pat Larsen cafwyd ymchwiliad yn ystod haf 1977 i'r sefyllfa yng nghroesffordd Raca a chodwyd arwyddion mwy "i ategu amlygrwydd at y groesffordd". Cafwyd addewid y byddai adran Drafnidiaeth y Cyngor Sir "a'r heddlu yn cadw llygaid agos ar effaith y mesur hwn cyn ystyried mesurau eraill".

Sylw diweddaraf y Cyngor Sir yw eu bod yn bryderus am unrhyw ddamweiniau sy'n digwydd a'u bod, mewn perthynas â'r heddlu yn "edrych i mewn" i'r sefyllfa. Mae cynllun ar y gweill i adnewyddu llinellau gwyn ar y groesffordd ac i godi arwyddion ychwanegol. Nid oes, ar hyn o bryd, unrhyw broject ar droed i ailosod y gyffordd neu i greu cylchfan yno. Y geiniog yw diwedd y gân honno.

Er fod modurwyr lleol wedi dod yn llawer mwy gwyliadwrus yng nghyffiniau'r gyffordd, maent yn dal yn bryderus, yn enwedig wrth feddwl am gyfnod prysur yr ymwelwyr sydd ar y trothwy. Adleisiwn ninnau eu gobaith a'u cais am well sustem yn Raca, cyn i rywun gael ei ladd yno.


AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............

Eric Morris



Bwsiau Arfon
LLANRUG

FFÔN
WAUNFAWR 254



R.Hughes Jones a'r Mab

The Butchery
BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3188



Cig blasus — prisiau rhesymol

# Dyddiadur y Mis

Ebrill 6. WAUNFAWR: Sefydliad y Merched. LLANRUG: Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr. Cinio diwedd tymor Clwb y Mamau.
Ebrill 7: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. WAUNFAWR: Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 – yr elw er budd Capel Moriah.
Ebrill 10: LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri am 2.00 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pel-droed yn y Ganolfan am 7.30
LLANRUG: Noson o Gamp a Rhemp dan nawdd Pwyllgor Rigarug yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30
Ebrill 11: LLANRUG: Merched y Wawr – sgwrs gan y Dr. John Gwilym Jones.
Ebrill 12: CWM-Y-GLO: Merched y Wawr. LLANBERIS: Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7,30
Ebrill 13: WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai. LLANBERIS: Disco dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan am 7.00.
Ebrill 14: WAUNFAWR: Eisteddfod Ysgol Sul Capel Bethel. PENISAR–WAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
LLANRUG: Clwb Blodau'r Grug
LLANBERIS: Clwb yr Henoed
Disco dan nawdd Pwyllgor Lleol Steddfod 79 yn y Ganolfan. Plant Ysgol Dolbadarn o 7.00 tan 9.00. Plant hyn o 8.30 tan 10.30
Ebrill 17: LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John yn y Ganolfan am 7.30
Ebrill 19: BETHEL: Gyrfa Chwist dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Neuadd am 7.30. LLANBERIS: Clwb y Mamau –sgwrs gan Mrs. Mary Vaughan Jones, Waunfawr. CWM-Y-GLO: Merched y Wawr yn ymweld a Bodeilio, Mon.
Ebrill 20. LLANBERIS: Eisteddfod Capeli Llanberis a Nant Peris. WAUNFAWR: Cyngerdd gan ddoniau lleol. Yr elw at Gronfa Leol Steddfod 79.
Ebrill 22: BETHEL: Cinio Blynyddol Clwb y Rhos ym Mhlas Tan Dinas
LLANBERIS: Noson o Ganu Codi'r To dan arweiniad Mr. Arwel Jones yn y Padarn Lake. Mynediad trwy docyn yn unig.
Ebrill 24: Llun: LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri am 2.00
Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan am 7.30
Ebrill 25: LLANBERIS: Pwyllgor Lleol Cronfa Eisteddfod 79 yn Ysgol Dolbadarn am 7.30
PENISARWAUN: Sefydliad y Merched Clwb yr Heulwen
Ebrill 26: LLANBERIS: Bingo dan nawdd cangen Plaid Lafur y Ganolfan am 7.30.
Ebrill 27: LLANBERIS: Sefydliad y Merched
Ebrill 28: Gwener: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
LLANBERIS: Clwb yr Henoed.

**DYDDIADAU I'W COFIO**

**Mai 1: Cinio Cangen Plaid Cymru Waunfawr**
**Mai 14–20: Wythnos Cymorth Cristnogol**
**Mai 18: Dydd Ewyllys Da**
**Mai 19: Ffair Wanwyn yn Ysgol Dolbadarn. Yr elw at Gronfa Steddfod 79.**
**Mai 31: Gwibdaith Flynyddol Clwb Gwyrfai, Waunfawr**
**Mehefin 18–24: Wythnos Garnifal Llanrug**

# AR WERTH.

**HAEARN SMWDDIO Morphy Richards (Dry Iron) – £2.**
**GOBLIN upright vacuum cleaner – £10.**
**GOBLIN CYLINDER style vacuum cleaner – £7**
**CLORIAN stafell molchi 'Boots' – £1**
**TABLE LAMP pren – £2.**
**3 Bryn Eglwys, Penisarwaun**
**SET O 6 RECORD mewn bocs –Glen Cambell, mewn cyflwr newydd. Pris £7 Bryn Davies, 21 Bro Rhyddallt, Llanrug.**

## YN EISIAU

**BEIC i ddynes. Cysylltwch â Mrs. Carys Hughes, Galahad, Penisarwaun.**

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## YSGOL BRYNREFAIL


**YMWELD Â'R BRIFYSGOL** – Bu rhai o aelodau'r chweched dosbarth, sydd â diddordeb mewn dilyn cwrs Prifysgol ar gwrs ym Mhrifysgol Bangor o ddydd Llun, Mawrth 20 tan ddydd Mawrth. Arhosodd y disgyblion ymysg cant o ddisgyblion eraill yn Neuadd Gymraeg Syr John Morris-Jones. Mwynhawyd y cwrs yn fawr iawn gan bawb. Dangoswyd ffilm o Brifysgol Bangor i aelodau'r chweched dosbarth i gyd ddydd Mercher, Mawrth 15.

**CYNGERDD** – Cynhaliwyd cyngerdd yn yr ysgol nos Iau, Mawrth 16 gan gynnwys Hogia'r Wyddfa, unawdwyr gwadd o Ynys Môn, Côr Actol Ysgol Gwaun Gynfi a hefyd rai o ddisgyblion yr ysgol a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod fis ynghynt. Casglwyd arian tuag at glwb rygbi yr ysgol. Arweiniwyd y cyfarfod a thalwyd y diolchiadau gan athro o'r ysgol, Mr. Dafydd Evans. Cyfeiliwyd gan Mr. Gwyndaf Parry, athro cerdd yr ysgol.

**RAFFL** – Bu genethod y chweched dosbarth yn brysur dydd Mawrth, Mawrth 21 yn tynnu raffl a ddyfeisiwyd ar gyfer cronfa'r ysgol. Enillwyd y casét radio gan Mrs. A. Taylor o'r Waunfawr. Enillwyd amryw o wobrau eraill hefyd.

**FFARWEL I'R MYFYRWYR** – Ar ôl cyfnod o amser, ffarweliwyd â'r myfyrwyr o Brifysgol Bangor, ddydd Mercher, Mawrth 22. Gobeithiwn iddynt fod yn hapus iawn yn ein plith a dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.

# Croesair 23



**CROESAIR RHIF 23**

**AR DRAWS:**
1. "Efe a wna i mi orwedd mewn porfeydd..." (7)
5. Gwneud llun gwlad neu ran o wlad (5)
8. Plygu gerbron (5)
9. Math o dreigliad (7)
10. Addoliad cyhoeddus (9)
12. Cwmwl a gwyd oddi wrth rywbeth sy'n llosgi (3)
13. Y cyflwr o fod heb wallt (6)
14. Dull o siarad – rhyfedd (4.2)
17. Pwrpas (3)
18. Perthynas (9)
20. Gwyliwr (7)
21. Stori neu ddrama fer (5)
23. Saethu (5)
24. Datgan drwy'r radio (7)

**I LAWR:**
1. ... Gwynedd (5)
2. Y rhan o'r papur hwn sy'n atsain (3)
3. Chwedeg (7)
4. Clwydi (6)
5. Hwn a ladd yn ôl y ddihareb (5)
6. Heb hon byddai'n ddrwg ar Fam Cymru (4.5)
7. Oherwydd (7)
11. Dyma lle 'roedd Cynan am brynu bwthyn (9)
13. Claddf (7)
15. Carreg dân – Fflint (7)
16. Bwgan (6)
18. Gwgu – crychu talcen (5)
19. Ennill gwybodaeth (5)
22. Meddai (3)

**ATEBION CROESAIR RHIF 22**

**AR DRAWS:** 1. Gwastad; 5. Tocyn; 8. Anlwc; 9. Gormesu; 10. Datguddiad; 12. Dydd; 13. Culfor; 14. Adegau; 17. Mwy; 18. Gwargalon; 20. Anifail; 21. Meirw; 23. Didol; 24. Nadroedd.

**I LAWR:** 1. Gwaed; 2. Ail; 3. Tacluso; 4. Digrif; 5. Tyred; 6. Creadigol; 7. Neuaddau; 11. Talfyriad; 13. Cwmpawd; 15. Digymod; 16. Darlun; 18. Gwael; 19. Newydd; 22. Iro.

**ENILLYDD CROESAIR RHIF 22**
**Mrs. Jane Pritchard,**
**Tudur House,**
**Carmel, Caernarfon.**

Cyfrifa y llythrennau canlynol fel UN llythyren:
Ch; Dd; Ff; Ng; Ll; Ph; Rh; Th

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir wedi i'r holl gynigion ddod i law.
Anfoner y cynigion fel arfer i:

**Myrddin Owen,**
**32, Stryd Fawr,**
**Llanberis.**

ENW: ALICE GRIFFITH
CYFEIRIAD: TANY BWLCH
DINORWIG.

# CHWARAEON

## PROFIAD NEWYDD

'RWY'N siwr nad yw'n fawr o syndod i'r un ohonoch ddarllen fod Bobby Charlton wedi rhoi ei lofnod i'r Parch. Geraint Edwards; bu gryn filoedd yn sicr yr un mor llwyddiannus yn sicrhau ei 'autograph'. Pam felly gofnodi'r ffaith yn *Eco'r Wyddfa?* Wel, nid y llofnod ei hun sy'n creu'r diddordeb ond yr hyn yr ysgrifennwyd arno.


Mae Bobby Charlton yn adnabyddus i bawb, bu'n un o sêr disgleiriaf y byd pêl-droed – gwnaeth ei chwarae dawnus i dimau Manchester Utd. a Lloegr ef yn fyd enwog – gŵr bonheddig pêl-droed.

Mae'r Parch. Geraint Edwards, Ficer Plwyf Llanddeiniolen, sy'n byw ym Mhenisarwaun, yr un mor adnabyddus i nifer o ddarllenwyr yr *Eco*, gŵr bonheddig a gyfeiriodd ei dalentau at fyd pur gwahanol. Mae diddordeb mawr ganddo yntau ym myd y bêl gron, ond nid fel chwaraewr.



Am flynyddoedd tra'n fachgen ysgol yng Nghaernarfon bu'n hyfforddwr y tîm Cynghrair Arfon, Caernarfon Utd. a chyflawnodd yr un swydd i dîm Coleg Llanbed tra'n fyfyriwr yno. Ef yw dyn sbwnj tîm Cynghrair Gogledd Cymru, Bangor y tymor hwn, a thrwy rinwedd y swydd honno y daeth i gysylltiad â Bobby Charlton yr wythnos diwethaf. Fe gofiwch, rai ohonoch iddo chwarae dros dîm Bangor yn erbyn Reginna o'r Eidal yn y gystadleuaeth Anglo-Italian, gan sgorio gôl ardderchog yn y fuddugoliaeth o 2 gôl i 1.

Yn ystod y wledd ddathlu ar ôl y gêm y mentrodd Geraint ofyn am ei lofnod, ond nid ar raglen swyddogol y gêm fel y gwnaeth y mwyafrif, nid ar ddarn o bapur nac ar gefn amlen. Mae man arbennig iawn ganddo i gasglu llofnodion, a phan roddwyd hwn i Charlton, crafodd ei ben, chwarddodd ei bleser a mentrodd ei fod wedi llofnodi ar y pethau rhyfeddaf yn ystod ei yrfa, ond erioed o'r blaen ar HEN GOLER GRON!



## Pêl-droed

Mis llwyddiannus eto i'r ddau dim Cynghrair Arfon, y tabl yn awgrymu,a llai na hanner y tymor ar ôl, mai dim ond blerwch ar eu rhan a bair i'r Bencampwriaeth a Chwpan Deanfield (i'r ail yn y Gynghrair) beidio â dod i ardal *Eco'r Wyddfa*.

| | Ch | E | Cyf | Colli | OB | YE |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanberis | 20 | 16 | 3 | 1 | 83 | 23 |
| | | | | | Pwyntiau = 35 | |
| Llanrug | 16 | 14 | 2 | 0 | 64 | 14 |
| | | | | | Pwyntiau = 30 | |
| Arfon Utd. | 18 | 13 | 2 | 3 | 65 | 28 |
| | | | | | Pwyntiau = 28 | |

Llanrug sydd â'r cyfle gorau o hyd, er fod Llanbêr bum pwynt ar y blaen iddynt. Gall y pedair gêm mewn llaw fod yn werth 8 pwynt, er fod yn rhaid gofalu rhag bod yn or-hyderus – "mae 'deryn mewn llaw yn werth dau yn y llwyn" os caf i gyfieithu dihareb y Sais.

### Llanrug

Mis 'am y tro cyntaf' fu hwn iddynt, – ni fu llawer o amser i feddwl am y Gynghrair. Cyrraedd rownd derfynol Cwpan Iau Gogledd Cymru am y tro cyntaf yn eu hanes, a chyrraedd rownd gynderfynol Cwpan Ganolradd Gogledd Cymru, hefyd am y tro cyntaf. Rhwng y ddwy gêm llwyddo i gyrraedd ail rownd y Cwpan Penrhyn.

Trechu Teigrod Porthaethwy o ddwy gôl i un ar Barc Meurig, Bethesda fu eu camp yn y Cwpan Iau. Gêm galed a chyfartal iawn, a gôl Dic Owen yn dod â hwy yn gyfartal a sicrhau chwarae amser ychwanegol. Hefin Jones enillodd y cyfle iddynt i chwarae yn y rownd derfynol, ei gôl yn dilyn gwaith da gan Garry Vaughan.

Hefin sgoriodd y gôl i ennill y gêm Cwpan Penrhyn yn erbyn Harlech hefyd, ar ôl i Barry Pitts wneud y sgôr yn gyfartal yn dilyn gôl gynnar gan Harlech.

Yn erbyn British Steel, Shotton y Sadwrn diwethaf yn y Cwpan Ganolradd, 'roedd Llanrug ddwy gôl ar y blaen, o fewn chwarter awr – Barry Pitts ac Alan Price yn sgorio, ond o hynny hyd ddiwedd y gêm bu angen dogn da o lwc i'w cadw yn y gystadleuaeth. Methodd B.S. o'r smotyn gwyn, ac ar ôl sgorio i'w gwneud yn 1–2 gwelsant y mwd yng ngheg y gôl yn arbed Llanrug deirgwaith rhag colli.

*DIOLCH*

*Ar ail ben-blwydd Eco'r Wyddfa hoffwn ddiolch eto i'r ddau fu'n casglu'r newyddion pêl-droed i mi, sef Lal Jones o Lanberis a Dafydd W. Thomas o Lanrug.*

*Apeliaf hefyd am eich cymorth chwi i gyd; os gwyddoch am unrhyw newydd neu stori y dylid rhoi gofod iddi ar y dudalen chwaraeon, cysylltwch â mi – Dafydd Evans, Sycharth, Bryn Eglwys, Penisarwaun.*

# TIMAU BACH Y FRO

## TÎM PÊL-DROED CWM-Y-GLO

**'Does ond wyth tîm yn Nosbarth 2 Cynghrair Gwyrfai, ac y mae chwech ohonynt o bentrefi ardal *Eco'r Wyddfa.* Llanberis a Bethel yw'r timau mwyaf llwyddiannus; mae Cwm-y-glo yng nghanol y Gynghrair a'r Waunfawr Llanrug a Glan Peris ar y gwaelod. Mae tîm dan 15eg oed Deiniolen yn y Dosbarth Cyntaf, ac yn weddol llwyddiannus yn hanner ucha'r tabl ar hyn o bryd.**

Mae'n glod i'r rhai sy'n rhedeg y Gynghrair, ac i'r rhai sy'n gofalu am y timau fod diddordeb ganddynt i sicrhau fod bechgyn o'r oedran yma yn cael y cyfle i chwarae pêl-droed cystadleuol, canys yng ngharfan y rhain y mae sêr y dyfodol yn cael y cyfle i ddatblygu.

Nid yn y timau hyn y mae eu prif ddiddordeb yn aml, gwaith ychwanegol ydyw, estyniad o'u cysylltiadau ehangach â'r gêm. Mae Gwilym Williams, er enghraifft, tra'n rheoli ac yn hyfforddi tîm Gwm-y-glo,yn gapten a golgeidwad tîm Cynghrair Arfon, Llanberis.

Ym mis Awst y llynedd y penderfynodd,ynghyd â Sam Jones ac Ifan Owen,y buasant yn cynorthwyo hogia'r pentre' i redeg tîm yn y Gynghrair. Y step gyntaf oedd trefnu taith gerdded, fu'n gyfrwng i gasglu dros £200 tuag at brynu offer a dilladu'r tîm.

Yn eu tymor cyntaf ni fu disgwyl iddynt ennill yr un wobr, ond er iddynt golli gemau cynta'r tymor trechwyd y Waunfawr ganddynt y Sadwrn diwethaf o 5 gôl i 1 a Glan Peris y Sadwrn cynt o 10 gôl i 0. Pwysleisir er hynny nad y canlyniadau sy'n bwysig ond y profiad a gaiff yr hogia o gystadlu – dyma'r reng gyntaf yn yr ysgol a all fod â'i phen i rai ohonynt yn nhîm Cenedlaethol Cymru.



*Tîm dan 15 oed Cwm-y-glo. Rhes ôl, o'r chwith i'r dde: Ifan Owen; Sam Jones; Wyn Sinclair; Gethin Jones; Arfon Jones; Islwyn Jones; Andrew Flint; Michael John Williams; Neil Rowlands a Gwilym Williams. Rhes flaen: David Jones; Nigel Orritt; Dilwyn Morris; Gwyn Morris; Steven Owen; Kevin Owen ac Islwyn Jones.*

## LLANBERIS

Un marc du yn erbyn Llanberis gan iddynt golli o 6 gôl i 4 yn nechrau'r mis i Gaernarfon Utd. yng Nghystadleuaeth Cwpan Penrhyn.

Bu'r rhaid iddynt ailchwarae'r Wyddgrug yn Llanberis ym mhedwaredd rownd y Cwpan Gyfryngol yn dilyn gêm gyfartal, a llongyfarchiadau iddynt am wneud yn saff y tro hwn o 3–1.

Gemau'r gynghrair fu'n dwyn eu sylw am weddill y mis, ac mae'n rhaid dweud eu bod wedi gwneud yn fawr o'r cyfle i'w rhoi eu hunain y pum pwynt o flaen Llanrug. 'Doedd gan y Coleg Normal ddim siawns yn eu herbyn ar y 18ed, a maeddwyd hwy o 8–0, Sel Allsup a Ray Harding yn sgorio tair yr un. 'Roedd Talysarn yn dipyn mwy o broblem ar y 25ain ond eu trechu fu eu hanes hwythau o 4–2.

Bangor Athletic fu'n eu gwrthwynebu yn Llanberis y Sadwrn diwethaf, Ebrill 1, ac yn nhraddodiad y dyddiad fe'u gwnaed hwythau'n ffyliaid hefyd.

Sgoriodd Iwan Evans a Gwilym Williams i Lanber cyn i Fangor lawn sylweddoli fod y gêm wedi dechrau, ac er iddynt wella rhywfaint ar eu chwarae, 'roedd Ray Harding wedi sgorio ei ddeugeinfed gôl y tymor hwn yn fuan yn yr ail hanner. Efelychwyd ei gamp gan Peter Evison ac Einion Holland cyn iddo sgorio eto a'i gwneud yn 6–0.

Mae cyfnod trwm yn wynebu'r ddau dîm o hyn hyd ddiwedd y tymor, yn wir bydd y ddau wedi chwarae dwy gêm gynghrair cyn i'r rhifyn hwn ddod allan o'r wasg.

Llanberis yn erbyn Caernarfon Utd. a'r Felinheli, Llanrug yn erbyn Bethesda a Thalysarn. Mae gêm galed iawn yn wynebu Llanberis y Sadwrn nesaf yn erbyn tîm cyntaf Caernarfon yn y Cwpan Cyfryngol – pob lwc iddynt. Gobeithiwn y bydd carfan y ddau dîm yn ddigon cryf i ddal y pwysau fydd arnynt am weddill y tymor.